

Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Cymunedau Iach

Hydref 2026



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Cymunedau Iach

Defnyddio'r canllaw hwn — dechreuwch yma

Os ydych chi'n ymgeisydd neu'n asiant: mae [Pennod 9](#) yn nodi'r hyn sy'n berthnasol i'ch cynnig, ac mae [Pennod 8](#) yn nodi'r fethodoleg asesu i'w dilyn.

I benderfynu a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o dan INF2, gweler [Pennod 6](#). Mae siart llif symlach i'w weld yn [Atodiad D](#).

Cyn i chi wneud cais: rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cysylltu â ni yn gynnar i drafod eich cais (gweler [Paragraff 10.1-2](#)).

Mae'r penodau sy'n weddill yn cwmpasu'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol, rolau a chyfrifoldebau, a gweinyddu'r broses.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Pwy ddylai ddefnyddio'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn?	2
3. Pam mae iechyd a llesiant yn bwysig.....	4
4. Polisi a Fframwaith Statudol	6
5. Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?	10
6. Pryd mae angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?	13
7. Cydlynu ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	20
8. Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	22
Cam 1: Sgrinio.....	23
Cam 2: Cwmpasu	25
Cam 3: Arfarnu tystiolaeth	29
Cam 4: Adrodd ac Argymhellion	31
Cam 5: Monitro ac Adolygu	32
9. Gofynion yn ôl Math o Gais.....	34
Ceisiadau Mawr.....	34
Ceisiadau Amlinellol	35
Mathau Eraill o Ddatblygiadau	35
10. Y Broses o wneud Cais Cynllunio	37
11. Ystyriaethau Lleol	42
Creu Lleoedd	42
Plant a Phobl Ifanc.....	44
Poblogaeth sy'n Heneiddio.....	44
Yr Iaith Gymraeg.....	45
Defnyddiau sensitif a phoblogaethau agored i niwed	45
Datblygu Aneddiadau Gwledig a Gwasgaredig	46
Sŵn.....	46
Ansawdd Aer	48
Llygredd Golau	49
Capasiti Gofal Iechyd a'r Galw amdano	49
Tir Halogedig	51
Amgylchedd Bwyd Iach.....	52
Effeithiau Cronnus	52
Atodiad A: Y Cyd-Destun Deddfwriaethol a Pholisi.....	53
Atodiad B: Adnoddau Defnyddiol	57
Atodiad C: Geirfa	62
Atodiad D: Siart Llif Penderfyniadau	64

Byrfodd	Ystyr
AQMA	Ardal Rheoli Ansawdd Aer
EIA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
EqIA	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
HFSS	Bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr
HIA	Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
LHB	Bwrdd Iechyd Lleol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)
MTAN	Nodyn Cyngor Technegol Mwynau
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
CDLI diwygiedig	Cynllun Datblygu Lleol Newydd
SEA	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SPG	Canllawiau Cynllunio Atodol
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
WHIASU	Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
WLIA	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r lleoedd rydyn ni'n eu cynllunio a'u hadeiladu yn siapio iechyd y bobl sy'n byw ynddynt. Mae iechyd a llesiant yn faterion canolog yn neddfwriaeth a pholisi cynllunio Cymru. Mae hyn nid yn unig yn adlewyrchu'r modd y mae datblygiadau wedi cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd, mae hefyd yn dangos sut y gall datblygiadau, o'u cynllunio'n ofalus o'r cychwyn, helpu i greu cymunedau iachach a mwy gwydn.
- 1.2. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol presennol wedi'i baratoi i gyd-fynd â *Chynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2018–2033* ac mae'n ymwneud yn bennaf ag *INF2: Cymunedau Iach*. Mae'n un o gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol sydd gyda'i gilydd yn llywio proses, dyluniad ac ansawdd datblygu cynaliadwy ar draws y sir.
- 1.3. Pwrpas y Canllaw Cynllunio Atodol hwn yw esbonio pryd y bydd angen cyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyda chais cynllunio, beth mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ei gwmpasu, a sut y bydd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynwyd yn cael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio ac felly dylai'r sawl sy'n bwriadu cyflwyno cais cynllunio gyfeirio ato.
- 1.4. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn wedi'i ddatblygu yn unol â dyletswyddau statudol yr awdurdod lleol o dan deddfwriaeth Cymru ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, ochr yn ochr ag ystyriaethau polisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol eraill. Mae Pennod 4 yn crynhoi'r polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol hwn, a darperir rhestr lawnach, ond nad yw'n gynhwysfawr, yn Atodiad A.
- 1.5. Dylid darllen y Canllaw Cynllunio Atodol hwn ochr yn ochr â Chanllawiau Cynllunio Atodol eraill, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â chreu lleoedd, seilwaith gwyrdd a glas, goleuadau ac awyr dywyll, mannau agored cyhoeddus, a rhwymedigaethau cynllunio, sydd gyda'i gilydd yn mynd i'r afael ag agweddau cysylltiedig ar ddatblygu iach, cynaliadwy.

Ymgynghoriad

- 1.6. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn destun ymgynghoriad a gynhelir yn unol â'r gweithdrefnau a bennwyd yng Nghytundeb Cyflawni'r CDLI diwygiedig. Bydd unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt mewn ymateb i sylwadau a dderbynnir yn cael eu hymgorffori, ac ar ôl hynny bydd y Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w ystyried er mwyn ei fabwysiadu.

2. Pwy ddylai ddefnyddio'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn?

- 2.1. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn berthnasol i bawb sy'n ymwneud â phenderfyniadau cynllunio a allai effeithio ar iechyd a llesiant. Mae Tabl 1 yn nodi sut y dylai defnyddwyr ei gymhwyso ar bob cam o'r broses gynllunio.

Tabl 1: Cymhwyso'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn — canllawiau i ddefnyddwyr yn ôl cam cynllunio

Y Defnyddiwr	Cyn ymgeisio	Cais Cynllunio	Ar ôl cael caniatâd
Ymgeisydd / Datblygwr	Nodi'r effeithiau posibl ar iechyd yn gynnar; ystyried sgrinio a chwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd cyn cytuno ar y dyluniad yn derfynol; defnyddio cyngor cyn ymgeisio i gadarnhau a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r dull cymesur neu'r haen sy'n ofynnol. Ymgorffori atebion dylunio o fewn cynigion.	Cyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sy'n gymesur â'r cynnig, gan ddilyn y broses ym Mhenod 8. Dangos sut y mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi dylanwadu ar y dyluniad.	Cyflawni amodau; cyflawni mesurau cysylltiedig ag iechyd y cytunwyd arnynt ac unrhyw ymrwymïadau monitro.
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd / Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd	Sgrinio a chwmpasu ar y cam cynharaf o'r prosiect. Ymgynghori â'r tîm dylunio cyn cytuno'n derfynol ar y cynllun a'r defnyddiau. Rhoi cyngor ynglŷn â pha haen o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sydd ei hangen.	Paratoi'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn unol â chanllawiau cyfredol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU). Cynnal llwybr archwilio clir rhwng effeithiau a nodwyd, argymhellion a phenderfyniadau dylunio.	Helpu i gasglu tystiolaeth o unrhyw amodau a gyflawnwyd ac adrodd ar ganlyniadau lle bo angen.
Swyddog Cynllunio	Defnyddio'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn i lywio trafodaethau cyn ymgeisio a gosod disgwyliadau ynglŷn â'r dull cymesur neu'r haen o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sy'n ofynnol.	Cymhwyso'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn fel ystyriaeth gynllunio berthnasol yn erbyn INF2 a pholisïau cysylltiedig. Defnyddio Fframwaith Adolygu Sicrhau Ansawdd Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru i asesu Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynwyd.	Monitro a gorfodi cydymffurfiaeth ag amodau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Y Defnyddiwr	Cyn ymgeisio	Cais Cynllunio	Ar ôl cael caniatâd
Y Gymuned / Rhanddeiliaid	Defnyddio Penodau 3 a 6 i ddeall pa ystyriaethau iechyd y dylid mynd i'r afael â nhw ar gyfer cynigion yn yr ardal.	Defnyddio Penodau 6–11 i ddeall beth ddylai fod ei angen a sut i fframio ymatebion ymgynghori.	Defnyddio Penodau 8 a 10 i ddeall ymrwymadau monitro.

- 2.2. Caiff ymgeiswyr eu hannog i ddefnyddio'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn mor gynnar â phosibl wrth gynllunio eu datblygiad ac i gael cyngor cyn ymgeisio gan yr awdurdod lleol lle bo'n berthnasol.

3. Pam mae iechyd a llesiant yn bwysig

- 3.1. Mae'r cysylltiad rhwng iechyd a llesiant a'r lleoedd rydym ni'n eu hadeiladu wedi'i hen sefydlu. Mae dyluniad, lleoliad a chymysgedd datblygiad yn dylanwadu ar ba mor hawdd y gall pobl symud o gwmpas, cael mynediad at wasanaethau, gweithio, ymarfer corff, cwrdd ag eraill, bwyta'n dda, a theimlo'n ddiogel - sef penderfynyddion ehangach iechyd. Mae'r rhain yn faterion y mae'r system gynllunio mewn sefyllfa dda i ddylanwadu'n gadarnhaol arnynt.

Cyd-destun Sir Gaerfyrddin

- 3.2. Fel y trafodir ymhellach ym Mhennod 11, mae nodweddion y sir yn golygu bod y berthynas rhwng iechyd, cynllunio defnydd tir, a rheoli datblygu yn arbennig o bwysig:
- ➔ Sir wledig i raddau helaeth gydag aneddiadau trefol gwasgaredig, sy'n golygu bod mynediad at wasanaethau, gofal iechyd a seilwaith teithio llesol yn amrywio'n sylweddol.
 - ➔ Pocedi o amddifadedd sylweddol ochr yn ochr ag ardaloedd cymharol gyfoethog, gan arwain at anghydraddoldebau iechyd y gall penderfyniadau cynllunio naill ai eu hehangu neu helpu i'w cau.
 - ➔ Poblogaeth sy'n heneiddio, gyda goblygiadau o ran dylunio tai, hygyrchedd, seilwaith cymdeithasol ac unigrwydd.
 - ➔ Cymunedau Cymraeg, lle mae llesiant diwylliannol a chymdeithasol yn un o ddimensiynau cydnabyddedig iechyd yng Nghymru.

Rôl cynllunio mewn iechyd a llesiant

- 3.3. Gall datblygiad effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar iechyd. Gall datblygiad wedi'i gynllunio'n wael gynyddu dibyniaeth ar geir, gwahanu cymunedau, lleihau mynediad at natur, creu amgylcheddau sy'n effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl a llesiant, cyfrannu at lygredd sŵn a golau (sy'n effeithio ar gwsg), a rhoi pwysau ar wasanaethau, ymhlith eraill. Gall datblygiad wedi'i gynllunio'n dda wneud y gwrthwyneb - cefnogi teithio llesol, diogelu a chreu mannau gwyrdd, gwella ansawdd tai, hyrwyddo amgylcheddau sy'n cefnogi llesiant meddyliol, cryfhau seilwaith cymdeithasol, lleihau anghydraddoldebau a chynnal egwyddorion datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd.

- 3.4. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn rhoi ffordd strwythuredig i ymgeiswyr, yr awdurdod lleol a'r gymuned ystyried iechyd yn y cam dylunio, a hynny'n aml pan fydd newidiadau'n rhataf i'w gwneud ac yn fwyaf effeithiol. Mae'r broses Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn gyfle i wella cynnig a darparu buddion i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

4. Polisi a Fframwaith Statudol

- 4.1. Mae'r bennod hon yn crynhoi'r darpariaethau statudol a pholisi allweddol sy'n sail i'r berthynas rhwng rheoli datblygu ac iechyd a llesiant. Ceir rhestr nad yw'n gynhwysfawr gyda rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Dyletswyddau Statudol

- 4.2. Mae *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd mewn amgylchiadau penodol. Caiff y gofynion manwl eu nodi mewn rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Mae *Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025* wedi'u llunio a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2027, gan osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodedig i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd mewn amgylchiadau penodol.
- 4.3. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn mynnu bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr awdurdod lleol, yn gweithio tuag at saith nod¹ llesiant ac yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn un o'r ffyrdd sydd gan yr awdurdod lleol o ddangos bod iechyd a llesiant wedi'u hystyried yn unol â'r dyletswyddau hyn.
- 4.4. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a gyflwynwyd gan adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac a ddechreuwyd yng Nghymru yn 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol roi sylw dyledus, wrth wneud penderfyniadau strategol, i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Trwy nodi sut mae effeithiau datblygiad wedi'u dosbarthu ar draws gwahanol grwpiau, yn enwedig cymunedau difreintiedig, mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.
- 4.5. Mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru ac yn atgyfnerthu rôl yr awdurdod lleol wrth gyflawni datblygiadau cynaliadwy a llesiant drwy'r broses gynllunio. Mae'n rhan o'r fframwaith statudol y mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn a Pholisi INF2 yn gweithredu o'i fewn. Bydd Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth gynllunio bresennol mewn un fframwaith maes o law.

Polisi Cynllunio Cenedlaethol

¹ gan gynnwys 'Cymru Iachach' a 'Cymru sy'n fwy cyfartal'.

- 4.6. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi creu lleoedd, iechyd a llesiant wrth wraidd y system gynllunio². Mae Tabl 2 yn crynhoi'r gofynion perthnasol eraill.

²Cyfeirir at Baragraff 3.24 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12.

Tabl 2: Gofynion polisi cynllunio cenedlaethol allweddol sy'n berthnasol i iechyd a llesiant

Darpariaeth	Gofyniad craidd
Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleodedd Cynaliadwy ³	Dylai datblygiadau gyfrannu at y canlyniadau creu lleoedd, sy'n cynnwys hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach.
Egwyddor Gynllunio Allweddol: Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach	Dylai'r system gynllunio hyrwyddo iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, ac adlewyrchu'r cysylltiadau rhwng iechyd, llesiant a'r broses gynllunio.
Adeiladu Lleodedd Gwell (2020)	Mae'n nodi iechyd a llesiant, teithio llesol a seilwaith gwyrdd ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio wrth gefnogi adferiad a lleoedd gwydn.
Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040	Mae'n gosod y fframwaith datblygu cenedlaethol ar gyfer y CDLI a'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn, gan gynnwys rôl y sector cyhoeddus wrth greu lleoedd.

Polisi Cynllunio Lleol

- 4.7. Fel yr isod, INF2 yw'r polisi penodol y mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn ei ategu. Mae'n golygu bod angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer ceisiadau sy'n bodloni trothwyon diffiniedig, ac mae'n nodi dull dilyniannol o'i gynnal.

Polisi INF2: Cymunedau Iach

Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n darparu ar gyfer teithio llesol, mannau gwyrdd a seilwaith defnyddiadwy hygyrch, ac sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy annog pobl i ddilyn ffyrdd iach o fyw, gan fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch yn cael eu cefnogi.

Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau mawr (fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth gynllunio) fel y nodir isod gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn unol â'r dull dilyniannol:

- datblygiadau preswyl yn cynnwys 10 annedd neu ragor neu 0.5 hectar neu fwy;
- darparu adeilad neu adeiladau lle y mae'r gofod llawr fydd yn cael ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- datblygiad a wneir ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy.

- 4.8. Dylid darllen y Canllaw Cynllunio Atodol hwn ochr yn ochr â pholisïau cysylltiedig eraill y CDLI. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn cyfeirio at bolisïau sy'n ymwneud yn benodol

³ Ffigur 5. Tudalen 19. Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12.

ag iechyd a llesiant lle maent yn uniongyrchol berthnasol, gan gynnwys SP12(a). Mae [Atodiad A](#) yn darparu rhagor o fanylion am y polisiâu hyn a pholisiâu cysylltiedig eraill.

5. Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?

Diffiniad

- 5.1. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn broses strwythuredig ar gyfer ystyried sut y gall datblygiad arfaethedig effeithio ar iechyd a llesiant, a sut caiff yr effeithiau hynny eu dosbarthu ar draws gwahanol grwpiau. Mae'n nodi effeithiau cadarnhaol y gellir eu gwella, effeithiau negyddol posibl y gellir eu lliniaru, a bylchau mewn cynnig y gellid mynd i'r afael â nhw trwy newidiadau dylunio, amodau cynllunio neu rwymedigaethau.
- 5.2. Nid yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ddull ymchwil sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Mae'n defnyddio ystod o dystiolaeth (mewnbyn gan y gymuned, data lleol, ymchwil sefydledig, a barn broffesiynol) i gyrraedd argymhellion cymesur, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ymarferol, gan gymhwyso dull rhagofalus lle bo hynny'n briodol, a helpu i gynnal yr egwyddor datblygu cynaliadwy a sefydlwyd gan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Penderfynyddion Iechyd

- 5.3. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod iechyd yn cael ei siapio gan lawer mwy na gofal iechyd. Mae'r lleoedd y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt ac yn teithio drwyddynt - gan gynnwys ansawdd tai, mynediad at fannau gwyrdd, ansawdd aer, cyfleoedd i gerdded a beicio, ac ymdeimlad o ddiogelwch a chysylltiad - i gyd yn dylanwadu ar iechyd corfforol a meddyliol dros oes. Caiff y rhain eu disgrifio'n gyffredin fel '*penderfynyddion ehangach iechyd*'. Maent yn faterion y mae'r system gynllunio mewn sefyllfa dda i ddylanwadu arnynt, a dyna pam mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi dod yn rhan sefydledig o lunio cynlluniau a rheoli datblygu yng Nghymru.

Paratoi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: dull yr awdurdod lleol

- 5.4. Mae INF2 yn gofyn am gyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i'r rhain ddilyn dull methodolegol cydnabyddedig, yn unol â chanllawiau gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU). Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynir i ategu ceisiadau cynllunio yn Sir Gaerfyrddin:
- ddilyn methodoleg Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ddilyniannol gydnabyddedig (gweler Pennod 8);

- b. cael eu paratoi gan ystyried y canllawiau cyfredol ac unrhyw dempledi perthnasol⁴;
 - c. bod yn gymesur â graddfa a natur y datblygiad (gweler Pennod 6); a
 - d. cael eu paratoi gan bobl sydd â chymhwysedd priodol mewn ymarfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
- 5.5. Ceir dolenni i ganllawiau yn [Atodiad B](#). Gan fod canllawiau'n cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd, dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r fersiwn ddiweddaraf yn hytrach na dibynnu ar ddeunydd sydd wedi'i ddisodli.

Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd statudol

- 5.6. Mae *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*, a *Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025* yn mynnu bod Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ofyniad statudol i gyrrff cyhoeddus mewn perthynas â gwneud penderfyniadau strategol⁵.
- 5.7. Bydd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio o dan INF2, yn y rhan fwyaf o achosion, yn anstatudol yn yr ystyr hwn (h.y. gan eu bod yn ofynnol gan bolisi cynllunio yn hytrach nag yn uniongyrchol gan Ddeddf 2017). Lle mae cynnig hefyd yn sbarduno dyletswydd statudol i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, gall un Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel arfer fodloni'r ddau ofyniad ar yr amod ei fod wedi'i baratoi i'r safon uwch. Dylai ymgeiswyr sydd mewn unrhyw amheuaeth ofyn am eglurhad gan yr awdurdod lleol.

Sut y mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn gysylltiedig ag asesiadau eraill?

- 5.8. Caiff asesiadau eraill yn aml eu paratoi ochr yn ochr ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae gan bob un ei bwrpas ei hun, ac ni ddisgwylir iddynt ddyblygu.
- 5.9. Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol sylweddol rhai datblygiadau, gydag iechyd dynol wedi'i gynnwys fel derbynnydd o dan *Reoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol*⁶. Ceir gorgyffwrdd â'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ynghylch materion megis ansawdd aer, sŵn a halogiad, ond nid yw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn mynd i'r afael yn systematig â phenderfynyddion ehangach iechyd⁷ neu effeithiau dosbarthu. Lle mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, dylai'r Asesiad

⁴ Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y defnydd o dempledi a gyhoeddir gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru.

⁵ Mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar wahân ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd statudol a Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a wneir fel arfer gorau.

⁶ *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2016*.

⁷ Gweler paragraff 8.14.

o'r Effaith ar Iechyd groesgyfeirio ato yn hytrach na dyblygu canfyddiadau. Mae [Pennod 7](#) yn nodi sut y dylid cydlynu'r ddau.

- 5.10. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (WLIA) yn ystyried effeithiau ar grwpiau penodol a'r Gymraeg yn briodol. Ceir rhywfaint o orgyffwrdd â dimensiwn dosbarthu'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau agored i niwed a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Anogir croesgyfeirio cryf.
- 5.11. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) yn gweithredu ar lefel llunio cynlluniau yn hytrach na cheisiadau unigol. Mae'r ddau yn ystyried iechyd pobl ac maent yn ofynion statudol wrth lunio cynlluniau⁸, gyda gofynion ychwanegol ar gyfer ymgynghori.

⁸ Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gymwys i ystod o gynlluniau a rhaglenni, gan gynnwys CDLlau ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, o dan *Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004*.

6. Pryd mae angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?

Iechyd, creu lleoedd a sgrinio cymesur

Mae dylunio a chreu lleoedd o ansawdd yn dechrau gyda deall sut mae datblygiad yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl. Mae'r disgwyliad ehangach y dylai pob datblygiad gyfrannu at greu lleoedd ac at iechyd a llesiant preswylwyr a chymunedau yn berthnasol o dan SP12(a) (gweler Paragraff 6.15). Felly, mae'r awdurdod lleol yn annog pob ymgeisydd (beth bynnag yw maint y cynnig) i ystyried iechyd ar y dechrau a, lle bo'n ddefnyddiol, i gwblhau proses sgrinio fer ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae'r gofynion haenog a nodir yn y bennod hon yn gymwys dim ond lle caiff y trothwyon INF2 eu bodloni neu lle gall amgylchiadau yn ôl disgrisiwn fod yn berthnasol (gweler Paragraffau 6.10–6.15).

- 6.1. Caiff y dilyniant gwneud penderfyniadau a ddisgrifir yn y bennod hon ei grynhoi yn [Atodiad D](#).
- 6.2. Mae INF2 yn mynnu bod Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cael ei gyflwyno i ategu ceisiadau am datblygiad mawr, lle mae'r cynnig yn cynnwys:
 - a. datblygiad preswyl o 10 neu fwy o anheddau, neu ar safle o 0.5 hectar neu fwy;
 - b. adeilad neu adeiladau sy'n creu 1,000 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr; neu
 - c. ddatblygiad ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy.
- 6.3. Pan fydd cynnig yn dod o fewn mwy nag un o'r categorïau uchod, dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fynd i'r afael â chwmpas llawn y datblygiad yn ei gyfanrwydd.
- 6.4. Ar gyfer y datblygiadau hynny y mae angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg arnynt o dan Bolisi WL1, efallai y bydd hefyd angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, neu wybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
- 6.5. Bydd newidiadau defnydd yn debygol o gwmpo islaw'r trothwyon INF2. Fodd bynnag, mae gan rai newidiadau defnydd oblygiadau cydnabyddedig i iechyd a llesiant⁹, yn enwedig pan fyddant wedi'u lleoli ger ysgolion, ardaloedd o amddifadedd, neu grynodiadau presennol o ddefnyddiau tebyg. Lle mae newid defnydd arfaethedig yn codi materion o'r math hwn, caiff

⁹ Er enghraifft, cynigion ar gyfer cludfwyd poeth, swyddfeydd betio, adwerthu fêps neu dybaco, sefydliadau yfed neu ddefnyddiau eraill a allai effeithio ar ganlyniadau dietegol, ymddygiad neu ddiogelwch cymunedol.

ymgeiswyr eu hannog i gwblhau proses sgrinio fer ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, a gall yr awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth o dan y llwybr yn ôl disgresiwn (gweler adrannau 6.10–6.13).

Dull cymesur: haenau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd

- 6.6. Nid yw pob datblygiad mawr yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o'r un dyfnder. Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i'r dull dilyniannol sy'n ofynnol gan INF2 gael ei gymhwyso yn gymesur â maint, cymhlethdod ac effeithiau iechyd tebygol y cynnig, yn unol â methodoleg Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru.
- 6.7. Ceir dwy haen o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyflym a Chynhwysfawr), a chyn hynny y cam sgrinio sef cam cyntaf y dull dilyniannol. Ar gyfer y cynigion lleiaf sy'n bodloni'r trothwy, gall ymarfer sgrinio trylwyr wedi'i ddogfennu'n dda ddangos nad oes angen arfarniad pellach. Dylid cytuno ar y llwybr neu'r haen sy'n briodol ar y cam cyn ymgeisio:
- ➔ Ymarfer sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (gwybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd) – cam cyntaf y dull dilyniannol sy'n ofynnol gan INF2. Ar gyfer cynigion islaw'r trothwy lle mae'r sbardunau yn ôl disgresiwn ym Mharagraff 6.10 yn berthnasol, cyflwyniadau gwirfoddol, a'r cynigion lleiaf sy'n bodloni'r trothwy lle mae'r effeithiau tebygol ar iechyd yn gyfyngedig ac yn cael eu deall yn dda, efallai mai ymarfer sgrinio trylwyr yw'r cyfan sydd ei angen. Dylai'r ymarfer sgrinio ddilyn taflen cofnod sgrinio Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (gweler [Atodiad B](#)), nodi'r effeithiau tebygol, y poblogaethau yr effeithir arnynt ac unrhyw ymatebion dylunio a gaiff eu hymgorffori, a rhoi esboniad clir o sut y daethpwyd i'r casgliad. Pan ddaw i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau sylweddol ar iechyd yn debygol, nid oes angen cynnal arfarniad Asesiad o'r Effaith ar Iechyd pellach.
 - ➔ Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym – asesiad strwythuredig sy'n defnyddio fframwaith penderfynyddion cydnabyddedig, sy'n addas ar gyfer datblygiadau mawr sy'n bodloni'r trothwyon INF2 lle gellir nodi'r effeithiau tebygol ar iechyd ond nad ydynt yn anarferol o arwyddocaol, cymhleth neu heriol. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym fel arfer yn cynnwys ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid lleol perthnasol, ochr yn ochr ag arfarniad systematig o bob penderfynydd iechyd o fewn y cwrmpas.
 - ➔ Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr – asesiad manwl ar gyfer cynigion mwy neu fwy cymhleth, gan gynnwys y rheiny sy'n debygol o greu effeithiau sylweddol, dadleuol neu anghyfartal ar iechyd. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr fel arfer yn cynnwys ymgysylltu cychwynnol â'r cymunedau yr effeithir arnynt, casglu tystiolaeth fanylach, ac ystyried yr effeithiau cronus yn benodol. Mae angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr ar gyfer ceisiadau am ddatblygiad Asesiad o'r

Effaith Amgylcheddol sy'n bodloni'r trothwyon INF2 (lle dylid ei gydlynu gyda'r Datganiad Amgylcheddol).

- 6.8. Dylid cytuno ar y llwybr neu'r haen sy'n briodol gyda'r awdurdod lleol ar y cam cyn ymgeisio, yn dilyn y cam sgrinio (gweler [Pennod 8](#)). Bydd Tabl 3 yn llywio'r drafodaeth honno. Ni fydd angen hyn pan gynhelir Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr.

Tabl 3: Llwybrau a haenau dangosol

Llwybr neu haen	Pryd mae hyn yn berthnasol
Ymarfer sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (gwybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd)	Cynigion islaw'r trothwy lle mae'r sbardunau yn ôl disgrisiwn ym Mharagraff 6.10 yn gymwys; cyflwyniadau gwirfoddol; a'r datblygiadau mawr lleiaf sy'n bodloni'r trothwy ar ben isaf trothwyon INF2, lle mae'r effeithiau tebygol ar iechyd yn gyfyngedig ac yn cael eu deall yn dda. Mae'r ymarfer sgrinio wedi'i gwblhau yn gyfystyr â gwybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym	Datblygiadau mawr sy'n bodloni'r trothwyon INF2, lle gellir nodi'r effeithiau tebygol ar iechyd ond nad ydynt yn anarferol o arwyddocaol, cymhleth neu heriol.
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr	Cynigion mwy neu fwy cymhleth; cynigion sy'n debygol o gynhyrchu effeithiau sylweddol, dadleuol neu anghyfartal ar iechyd; a datblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol sy'n bodloni'r trothwyon INF2 (gyda'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi'i gydlynu gyda'r Datganiad Amgylcheddol).

- 6.9. Mae'r ystodau hyn yn ddangosol yn unig. Gall yr awdurdod lleol gytuno ar haen wahanol lle mae amgylchiadau cynnig yn cyfiawnhau hyn, yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol¹⁰.

¹⁰ Er enghraifft, gall hyn adlewyrchu lleoliad y safle, natur y defnydd terfynol arfaethedig, tystiolaeth o effeithiau cronus, ymgysylltu â'r gymuned, ymgynghoriad perthnasol, neu gwmpas unrhyw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol cysylltiedig.

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ôl disgrisiwn ar gyfer datblygiadau sydd islaw'r trothwyon INF2

- 6.10. Mae SP12(a) yn mynnu bod pob datblygiad yn cyfrannu at leoedd deniadol, cydlynol a diogel sy'n gwella iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd preswylwyr a chymunedau. Lle mae datblygiad islaw'r trothwyon INF2, caiff yr awdurdod lleol, i ategu SP12(a), ofyn am gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, neu wybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, lle ceir rheswm clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gysylltiedig ag iechyd dros wneud hynny, o ystyried natur, maint, lleoliad neu effeithiau tebygol y datblygiad. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae ymatebion ymgynghori gan gyrrff cyhoeddus neu ymgynghoreion statudol yn nodi y gallai'r cynnig arwain at effeithiau sylweddol ar iechyd. Mae'r amgylchiadau lle gall hyn fod yn berthnasol yn cynnwys:
- a. cynigion o fewn neu gerllaw Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA);
 - b. cynigion ar gyfer cludfwyd poeth a defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â gwerthu bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr, yn enwedig y rheiny sydd wedi'u lleoli ger ysgolion neu o fewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o ordewdra plant neu salwch sy'n gysylltiedig â diet;
 - c. cynigion ar gyfer defnyddiau sensitif, megis ysgolion, cartrefi gofal neu dai â chymorth, mewn lleoliadau lle nodwyd cyfyngiadau safleoedd sy'n gysylltiedig ag iechyd neu risgiau amgylcheddol;
 - d. cynigion sydd, naill ai'n unigol neu'n gronol gyda datblygiadau eraill, yn debygol o gyfrannu at bwysau iechyd y gellir eu nodi o fewn cymuned;
 - e. cynigion ar gyfer adwerthu fêps neu dybaco, safleoedd gamblo neu fetio, sefydliadau yfed, neu ddefnyddiau eraill sydd â goblygiadau cydnabyddedig o ran iechyd ymddygiadol, ymddygiad caethiwus neu ddiogelwch cymunedol, yn enwedig pan fyddant wedi'u lleoli ger ysgolion a/neu mewn ardaloedd sy'n profi pwysau iechyd cysylltiedig; neu
 - f. gynnigion sy'n codi pryderon iechyd sylweddol eraill (gweler Paragraff 6.14).
- 6.11. Bwriedir i'r defnydd o'r disgrisiwn hwn fod yn gymesur, gan ystyried amgylchiadau penodol y cynnig. Bydd fel arfer yn cael ei nodi trwy drafodaethau cyn ymgeisio. Fodd bynnag, os nad yw hyn wedi digwydd, gall yr awdurdod lleol ofyn am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd neu wybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wrth benderfynu ar gais lle mae hyn yn

rhwymol angenrheidiol o ystyried yr amgylchiadau yn ôl disgrisiwn a nodir uchod, a chydymffurfiaeth y cynnig ag INF2 ac SP12(a).

- 6.12. Gall ymgeiswyr ddewis cyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn wirfoddol. Gall ystyried materion iechyd a llesiant yn gynnwys helpu i gryfhau cynigion, dangos arfer da, a helpu i wneud penderfyniadau effeithlon ac effeithiol.
- 6.13. Ar gyfer datblygiad sydd islaw'r trothwyon INF2, caiff ymgeiswyr eu hannog i gwblhau a chyflwyno ymarfer sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd byr, cymesur ochr yn ochr â'u cais, beth yw ei faint. Nid oes angen i sgrinio ar y cam hwn arwain at Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym neu Gynhwysfawr; ei bwrpas yw dynodi'n gynnwys a yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar iechyd a llesiant, a nodi newidiadau dylunio a allai wella canlyniadau iechyd i'r gymuned. Mae taflen cofnod sgrinio Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (gweler [Atodiad B](#)) yn darparu templed addas.
- 6.14. Mae rhai mathau o ddatblygiad yn fwy tebygol o arwain at effeithiau ar iechyd ac felly maent yn debygol o gael sylw arbennig yn y cam sgrinio a chyn ymgeisio. Gall y rhain gynnwys cynhyrchu ynni a datblygu dulliau storio (gan gynnwys ynni adnewyddadwy, a batris storio), datblygu gwastraff a mwynau, canolfannau data, a chynlluniau trafnidiaeth, seilwaith ac adfywio mawr, ynghyd â datblygiad sy'n debygol o effeithio ar ansawdd aer, sŵn, mynediad at wasanaethau, gwahanu pobl oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau, neu gydlyniant cymunedol¹¹. Gall cynigion o'r fath achosi pryderon iechyd o dan faen prawf (f) ym Mharagraff 6.9. Pan fydd cynigion o'r fath yn bodloni'r trothwyon INF2, bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Pan fyddant yn cwmpo islaw'r trothwyon hynny, gall yr awdurdod lleol ofyn am wybodaeth o'r fath yn unol â'r dull yn ôl disgrisiwn a nodir uchod, gan ystyried maint, ehangder a dosbarthiad tebygol yr effeithiau ar iechyd.
- 6.15. Mae'r dull yn ôl disgrisiwn a nodir uchod yn sail i gyfrifoldebau ehangach yr awdurdod lleol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, iechyd a llesiant, a thegwch iechyd, gan gynnwys y rheiny sy'n codi o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*, polisi cynllunio cenedlaethol, ac amcanion iechyd cyhoeddus ehangach. Mae hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y CDLI, yn enwedig maen prawf SP12 (a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad gyfrannu at leoedd sy'n gwella iechyd a llesiant preswylwyr a chymunedau. Felly, mae'r dull yn ôl disgrisiwn yn darparu'r dull o fodloni gofynion SP12(a) lle mae datblygiad yn cwmpo islaw'r trothwy INF2.

¹¹ Gweler Canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru (Gorffennaf 2026), sy'n nodi mathau o ddatblygiadau sy'n fwy tebygol o arwain at effeithiau sylweddol neu gymhleth ar iechyd.

Gwaith glo brig

- 6.16. Gyda golwg ar baragraff 11.195 o'r CDLI, diffinnir gwaith glo brig newydd fel Prosiect Seilwaith Sylweddol o dan *Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024* a bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar geisiadau drwy'r broses ganiatâd seilwaith, a weinyddir gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.
- 6.17. Dylai'r gwaith o gwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer gwaith glo brig roi sylw arbennig i ansawdd aer, sŵn a dirgryniad, llwch, llesiant meddyliol, gwahanu cymunedol, a dosbarthiad effeithiau ar draws grwpiau agored i niwed. Dylid cyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo, ac at ganllawiau Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru ar asesu effeithiau mwyngloddio brig (gweler [Atodiad B](#)).

7. Cydlynu ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

- 7.1. Pan ystyrir bod cynnig yn ddatblygiad sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, rhaid ystyried iechyd dynol yn y Datganiad Amgylcheddol o dan *Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017*. Caiff y penderfyniad ynglŷn ag a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gynnig ei wneud ar wahân i'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn, o dan y Rheoliadau hynny. Y cyfan a wna'r adran hon yw ymdrin â sut y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Datganiad Amgylcheddol weithio gyda'i gilydd pan fo angen y ddau.
- 7.2. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y cynnwys sy'n berthnasol i iechyd mewn Datganiad Amgylcheddol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Yn unol â'r dull a gymerwyd gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru a chanllawiau cenedlaethol¹², mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac elfen iechyd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ategu ei gilydd yn hytrach na bod un yn cymryd lle'r llall, fel y nodir isod:
 - a. Mae'r modd y mae Datganiad Amgylcheddol yn trin iechyd dynol fel arfer yn canolbwyntio ar lwybrau bioffisegol uniongyrchol - ansawdd aer, sŵn, dirgryniad, llwch, halogiad, ansawdd dŵr a golau, ac effeithiau tebyg ar dderbynyddion adnabyddadwy. Dyma'r materion lle mae methodolegau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'u hen sefydlu.
 - b. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn mynd i'r afael â'r rhain ochr yn ochr â *phenderfynyddion ehangach iechyd* (gweler Paragraff 8.14) ac yn ystyried dosbarthiad yr effeithiau ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth, yn enwedig y rheiny y gall eu hiechyd fod fwyaf agored i niwed.
- 7.3. Er mwyn datblygu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Datganiad Amgylcheddol gael eu cydlynu. Dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:
 - a. groesgyfeirio at ganfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag iechyd yn hytrach na'u hailadrodd yn llawn;
 - b. defnyddio gwaelodlin y Datganiad Amgylcheddol a'r gwaith asesu lle mae'n berthnasol i benderfynydd ehangach; a

¹²The Office for Health Improvement and Disparities' Health Impact Assessment in Spatial Planning, 2020.

- c. chanolbwyntio'n bennaf ar y penderfyniadau ehangach a'r materion dosbarthu nad yw'r Datganiad Amgylcheddol yn mynd i'r afael â nhw.
- 7.4. Mae un bennod integredig sy'n ymdrin ag iechyd pobl yn y Datganiad Amgylcheddol, a ategir gan adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Iechyd annibynnol sy'n mynd i'r afael â'r penderfyniadau ehangach, fel rheol yn dderbyniol. Dylid cytuno ar y strwythur manwl ar y cam cwrpasu (gweler [Pennod 8](#)), gyda mewnbwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda lle bo hynny'n briodol.
- 7.5. Ar adeg cyhoeddi, nid oes templed Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru ar wahân sy'n ymdrin yn benodol ag iechyd o fewn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Er mwyn datblygu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd felly ddilyn y canllawiau y cyfeirir atynt yn y Canllaw Cynllunio Atodol hwn, gan gymhwyso'r dull cydlynol a nodir uchod.
- 7.6. Dylid nodi bod elfen iechyd Datganiad Amgylcheddol yn gofyn am farn ar arwyddocâd effeithiau, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Nid oes angen i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd annibynnol nodi effeithiau sylweddol yn ffurfiol, ond caiff ymgeiswyr eu hannog i esbonio maint tebygol unrhyw effeithiau lle bo hynny'n bosibl.
- 7.7. Dylai ymgeiswyr sy'n ymgymryd â'r asesiad o iechyd o fewn Datganiad Amgylcheddol roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cynaliadwyedd a Gweithwyr Proffesiynol Amgylcheddol¹³.
- 7.8. Nid yw'r cydlynol hwn yn golygu nad oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd pan fydd Polisi INF2 yn berthnasol. Bydd angen i ddatblygiadau sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac sy'n bodloni'r trothwyon INF2 ddarparu Datganiad Amgylcheddol¹⁴ ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn cefnogi'r defnydd cydlynol o dystiolaeth ar draws y ddwy broses i sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu diangen.
- 7.9. Os yw datblygiad yn is na'r trothwy INF2 ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, rhaid asesu'r effeithiau ar iechyd pobl o fewn y Datganiad Amgylcheddol o hyd. Gall yr awdurdod lleol hefyd ofyn am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, neu wybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, o dan y dull yn ôl disgrisiwn.

¹³ [ISEP \(formally IEMA\) Guide to: Determining Significance For Human Health in Environmental Impact Assessment, November 2022](#)

¹⁴ O dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017.

8. Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

- 8.1. Mae'r bennod hon yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â methodoleg Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru.

Dilyn canllawiau Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn nodi disgwyliadau'r awdurdod lleol ond nid yw'n atgynhyrchu methodoleg Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Dylai ymgeiswyr gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn unol â chanllawiau a thempledi cyfredol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, y cyfeirir at bob un ohonynt yn [Atodiad B](#).

- 8.2. Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i'r rhain ddilyn dull dilyniannol pedwar cam Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru:
- ➔ Sgrinio – penderfynu a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, a pha mor fanwl y mae angen iddo fod.
 - ➔ Cwmpasu – pennu'r ffocws, y dulliau a'r rhaglen waith.
 - ➔ Arfarnu'r dystiolaeth – nodi'r effeithiau posibl ar iechyd a sut maent yn cael eu dosbarthu.
 - ➔ Adrodd ac argymhellion – nodi canfyddiadau a chynnig mesurau i wneud y mwyaf o fuddion a lliniaru'r effeithiau andwyol
- 8.3. Yn ogystal â'r pedwar cam hyn, mae'r awdurdod lleol yn disgwyl dull cymesur o fonitro (gweler Paragraffau 8.30–35), fel bod modd olrhain dylanwad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar y datblygiad dros amser.
- 8.4. Mae canllawiau cyfredol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn disgrifio proses pum cam, a'r pumed cam yw adolygu ac adfyfrio, gan gynnwys monitro a gwerthuso. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn mynd i'r afael â'r pumed cam hwnnw ar wahân, o dan Monitro ac Adolygu, gan adlewyrchu cyfyngiadau adnoddau'r broses rheoli datblygu; mae monitro serch hynny yn parhau i fod yn ddisgwyliad ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr.

Cam 1: Sgrinio

Ymgysylltu'n gynnar - mae iechyd yn gweithio orau pan gaiff ei ystyried o'r cychwyn cyntaf

Iechyd a llesiant yw'r hawsaf a'r rhataf i'w datrys ar y cam dylunio. Caiff ymgeiswyr eu hannog yn gryf i drafod gofynion Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyda'r awdurdod lleol ar y cam cyn ymgeisio — gan gynnwys yr haen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd tebygol a chwmpas unrhyw asesiad — ac i gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda lle bo hynny'n briodol. Mae ymgysylltu cynnar yn helpu i osgoi gwaith ofer, yn cefnogi dylunio gwell, ac yn lleihau'r risg o oedi wrth benderfynu. Sgrinio yw'r cam cyntaf cymesur sy'n helpu hyd yn oed cynlluniau cymedrol i gyfrannu at leoedd iachach.

- 8.5. Mae sgrinio yn sefydlu a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac, os felly, y dull neu'r haen sy'n addas (gweler [Pennod 6](#)). Dylai sgrinio ystyried effeithiau sy'n codi yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau; iechyd corfforol a meddyliol a llesiant; y potensial i effeithiau gwmpo yn anghyfartal ar grwpiau agored i niwed; a phoblogaethau presennol a dyfodol yr ardal.
- 8.6. Ar gyfer cynigion sy'n bodloni'r trothwyon INF2, mae sgrinio yn gyffredinol yn syml - mae angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, ac mae'r ffocws yn symud i gadarnhau'r haen briodol. Pan fo cynnig yn agos at drothwy, neu lle gall un o'r sbardunau yn ôl disgrisiwn fod yn berthnasol (gweler Paragraff 6.10), dylai'r broses sgrinio esbonio'r rhesymeg dros y sefyllfa a gyrhaeddwyd¹⁵.
- 8.7. Dylid paratoi nodyn sgrinio yn gynnar yn y broses ddylunio a'i rannu gyda'r awdurdod lleol ar y cam cyn ymgeisio. Nid oes angen iddo fod yn hir; bydd dogfen fer, gymesur sy'n nodi'r cynnig, y trothwyon perthnasol, yr haen arfaethedig ac unrhyw faterion arwyddocaol lleol fel arfer yn ddigonol¹⁶. Er nad yw'n ofyniad ffurfiol, mae hyn yn helpu i sicrhau bod pawb wedi cytuno ar yr haen briodol, gan leihau'r risg o broblemau'n codi yn ddiweddarach.
- 8.8. Nid cynigion sy'n bodloni'r trothwyon INF2 yn unig a gaiff eu sgrinio. Caiff ymgeiswyr am ddatblygiad sydd islaw'r trothwyon eu hannog i gynnal yr un broses sgrinio gymesur — i gadarnhau a yw unrhyw un o'r amgylchiadau yn ôl disgrisiwn ym Mharagraff 6.10 yn berthnasol ac i fanteisio ar gyfleoedd i wella iechyd a llesiant trwy ddylunio. Os nad yw'r

¹⁵ Er enghraifft, gall hyn fod yn gyfystyr â chofnodi bod yr awdurdod lleol wedi cadarnhau ar y cam cyn ymgeisio bod angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o dan INF2, ynghyd â'r haen briodol.

¹⁶ Mae taflen cofnod sgrinio Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (gweler Atodiad B) yn darparu templed addas.

broses sgrinio yn dangos unrhyw effeithiau sylweddol ar iechyd, efallai y bydd y cofnod sgrinio wedi'i gwblhau ei hun yn ddigonol ac na fydd angen asesiad pellach.

Cam 2: Cwmpasu

Cytuno ar y cwmpas cyn i chi ddechrau'r arfarniad

Mae cwmpasu yn fwyaf defnyddiol pan gytunir ar y penderfynyddion, y poblogaethau ac ardal yr astudiaeth gyda'r awdurdod lleol ar y cam cyn ymgeisio. Daw'r cwmpas y cytunwyd arno yn feincnod y caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynwyd ei adolygu yn ei erbyn (gweler maen prawf 10.14(c)); dylid esbonio unrhyw achos diweddarach o wyro oddi wrtho yn adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

- 8.9. Mae'r gwaith cwmpasu yn sefydlu'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, gan gynnwys pa benderfynyddion iechyd fydd yn cael eu harchwilio, pa boblogaethau a grwpiau agored i niwed y gallai hyn effeithio arnynt, pa dystiolaeth fydd yn cael ei defnyddio, ac â phwy yr ymgysylltir. Dylai'r gwaith cwmpasu:
- fod yn destun cytundeb â'r awdurdod lleol ar y cam cyn ymgeisio, gan ofyn am fewnbwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda lle bo hynny'n briodol;
 - nodi penderfynyddion iechyd¹⁷ perthnasol (nid yw'r awdurdod lleol yn rhagnodi rhestr sefydlog ond mae'n disgwyl i'r rhestr wirio gyfredol o benderfynyddion Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru gael ei defnyddio fel man cychwyn);
 - nodi'r poblogaethau yr effeithir arnynt, gan gynnwys unrhyw grwpiau agored i niwed y gallai eu hiechyd ddioddef yn anghymesur¹⁸ (yn Sir Gaerfyrddin bydd hyn yn aml yn cynnwys pobl hŷn, plant a phobl ifanc, pobl ar incwm isel, pobl anabl, a chymunedau Cymraeg eu hiaith, er y dylid teilwra hyn i'r cynnig a'i leoliad);
 - nodi cwmpas daearyddol yr asesiad (safle, cymdogaeth, anheddiad, dalgylch) a'i gyfiawnhau; a
 - disgrifio'r dull ymgysylltu, sy'n gymesur â haen yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd¹⁹.
- 8.10. Wrth osod y cwmpas daearyddol, dylai ymgeiswyr ystyried y tair graddfa ardal astudiaeth a nodir yng nghanllawiau cyfredol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, gan ddewis y rhai sy'n briodol i'r penderfynyddion sy'n cael eu hasesu:

¹⁷ Gweler paragraff 8.14

¹⁸ Gweler Pennod 11

¹⁹ Gweler paragraffau 8.16–8.20

- a. Rhanbarthol (lefel awdurdod lleol neu fwrdd iechyd) — addas ar gyfer penderfynyddion megis capasiti gofal iechyd, yr economi leol a seilwaith strategol;
 - b. Lleol (lefel ardal gynnyrch ehangach haen ganol neu is) — addas ar gyfer penderfynyddion megis mynediad at wasanaethau, teithio llesol, cydlyniant cymdeithasol a dosbarthiad effeithiau ar draws cymunedau; a
 - c. Penodol i Safle (y safle datblygu a'i amgylchoedd agos) — addas ar gyfer penderfynyddion megis ansawdd aer, sŵn, halogiad ac ansawdd yr amgylchfyd cyhoeddus.
- 8.11. Er mwyn datblygu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, dylai'r gwaith cwmpasu hefyd gadarnhau sut y bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cael ei gydlynw â'r Datganiad Amgylcheddol (gweler Paragraff 7.3).
- 8.12. Mae rhestr wirio gwmpasu Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (gweler [Atodiad B](#)) yn darparu templed addas.

Penderfynyddion iechyd ehangach

- 8.13. Nid yw'r awdurdod lleol yn rhagnodi rhestr wirio sefydlog, gan gydnabod bod penderfynyddion perthnasol yn amrywio yn ôl cynnig a bod fframwaith Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn cael ei ddiweddarw o bryd i'w gilydd. Fel canllaw, bydd yr awdurdod lleol fel rheol yn disgwyl i Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gynnwys y penderfynyddion canlynol²⁰:
- ➔ ansawdd, dyluniad a fforddiadwyedd tai;
 - ➔ mynediad at seilwaith a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gofal iechyd, addysg a chyfleusterau cymunedol, ynghyd â mynediad at waith, hyfforddiant a'r economi leol;
 - ➔ teithio llesol, hygyrchedd a thrafnidiaeth gyhoeddus;
 - ➔ gweithgarwch corfforol a chyfleoedd ar gyfer ffyrdd o fyw egnïol, iach (gan gynnwys digonolrwydd cyfleoedd chwarae²¹);
 - ➔ mynediad at fannau agored cyhoeddus gan gynnwys seilwaith gwyrdd a glas hygyrch;

²⁰ gweler [Iechyd Cyhoeddus Cymru, Asesu'r Effaith ar Iechyd \(HIA\): Grwpiau poblogaeth a phenderfynyddion ehangach iechyd a llesiant](#), sy'n darparu fframwaith cynhwysfawr o benderfynyddion, gan gynnwys ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd, amodau cymdeithasol a chymunedol, llesiant meddyliol, amodau byw ac amgylcheddol, ffactorau economaidd, mynediad at wasanaethau, a dylanwadau cynaliadwyedd ar lefel macro. Dylai ymgeiswyr ystyried hyn a chanllawiau cyfredol eraill wrth ddiffinio cwrmpas Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

²¹Caiff ymgeiswyr eu hannog yn gryf i gyfeirio at yr Asesiad o Fannau Agored a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

- ➔ ansawdd aer, sŵn, golau ac amwynder y gymdogaeth;
- ➔ diogelwch cymunedol, cysylltedd, a chydlyniant cymdeithasol;
- ➔ iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys pryder ac aflonyddwch sy'n gysylltiedig ag adeiladu a newid;
- ➔ amgylchedd bwyd iach;
- ➔ y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd, perygl llifogydd, a bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol; a
- ➔ Y Gymraeg a llesiant diwylliannol.

8.14. Ni fydd pob penderfynydd yn berthnasol i bob cynnig. Dylai'r gwaith cwmpasu nodi pa rai sy'n berthnasol a pham, a dylai'r arfarniad ganolbwyntio ar y rhain yn unol â hynny.

Ymgysylltu

8.15. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan annatod o broses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac mae'n arbennig o bwysig yn ystod y cam cwmpasu. Dylai lefel yr ymgysylltu fod yn gymesur â haen yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:

- ➔ Gall ymarfer sgrinio ddibynnu ar waith ymgysylltu presennol a wneir ar gyfer y cais cynllunio, wedi'i ategu trwy gyfeirio at dystiolaeth a blaenoriaethau perthnasol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda lle bo hynny ar gael.
- ➔ Dylai Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym gynnwys ymgysylltu penodol â rhanddeiliaid lleol perthnasol a nodwyd wrth gwmpasu, wedi'i ategu gan fewnbwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda lle gellir cael hyn.
- ➔ Dylai Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr gynnwys ymgysylltu sylfaenol â chymunedau yr effeithir arnynt a grwpiau agored i niwed, yn ogystal ag ymgynghoreion statudol lle bo hynny'n berthnasol.

8.16. Ar gyfer cynigion mawr neu gymhleth (fel arfer y rhai sy'n destun Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr), mae'n arfer gorau i ymgeiswyr sefydlu grŵp llywio bach ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar y cam sgrinio. Mae grŵp o ryw bedwar i wyth o bobl fel arfer yn gweithio'n dda, gan dynnu ynghyd arbenigwyr iechyd cyhoeddus, cynrychiolwyr cymunedol, sefydliadau'r trydydd sector a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau²².

²² Er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau, ni ddylai swyddogion cynllunio awdurdodau lleol sy'n uniongyrchol gyfrifol am benderfynu ar y cais fod yn aelodau o'r grŵp llywio nac o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

- 8.17. Efallai y bydd ymgeiswyr yn ei chael hi'n ddefnyddiol paratoi Cynllun Cyfranogiad Rhanddeiliaid sy'n nodi â phwy yr ymgysylltir, a sut a phryd, gan gyd-fynd â'r templed yn Atodiad 2 o ganllawiau cyfredol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru.
- 8.18. Dylid ymgynghori ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel rhan o'r broses Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio sy'n ofynnol ar gyfer datblygiadau mawr o dan *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012*. Lle mae angen Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio, dylai'r gwaith o gwmpasu'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac o gasglu tystiolaeth gyd-fynd â'r gweithgaredd hwn er mwyn ymgorffori ystyriaethau iechyd yn gynnar, rhannu canfyddiadau'r ymgynghoriad, ac osgoi dyblygu. Dylai allbynnau'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (gan gynnwys adborth ac ymatebion) lywio'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a dylid adrodd arnynt yn unol â hynny.

Cam 3: Arfarnu tystiolaeth

Adeiladu'r llwybr archwilio wrth i chi fynd

Wrth i effeithiau gael eu nodi yn ystod yr arfarniad, dylid cofnodi pa dystiolaeth sy'n cefnogi pob canfyddiad, pa grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt, ac arwyddocâd cymharol yr effaith. Dyma'r llwybr y bydd angen i'r adroddiad ei ddangos ar Gam 4, a'r llwybr archwilio y bydd yr awdurdod lleol yn chwilio amdano o dan faen prawf 10.14(g) isod.

- 8.19. Y cam arfarnu yw elfen ddadansoddol ganolog yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Ar gyfer pob penderfynydd a nodwyd yn ystod y gwaith cwmpasu, dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:
- ddisgrifio'r waelodlin — yr amodau presennol yn y boblogaeth a'r ardal berthnasol, gan ddefnyddio ffynonellau data lleol a chenedlaethol;
 - nodi effeithiau tebygol y cynnig — cadarnhaol a negyddol, uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn ystod y gwaith adeiladu ac yn y tymor byr a hir;
 - ystyried sut mae'r effeithiau hynny'n cael eu dosbarthu ar draws gwahanol grwpiau, gan roi sylw arbennig i boblogaethau agored i niwed megis plant, pobl ifanc a'r henoed;
 - ystyried effeithiau cronrus, lle mae'r cynnig yn rhyngweithio â datblygiadau diweddar neu arfaethedig eraill yn yr ardal; a
 - nodi mesurau i wella effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau andwyol, wedi'u hintegreiddio i'r dogfennau dylunio ac ategol lle bo'n bosibl yn hytrach na chael eu gadael i amodau cynllunio.
- 8.20. Mae angen rhoi sylw arbennig i effeithiau iechyd y cyfnod adeiladu, yn enwedig ar gyfer cynlluniau mwy gyda chyfnodau adeiladu hir neu lle mae pobl yn byw neu'n gweithio yn agos at y gwaith. Mae'r ystyriaethau nodweddiadol yn cynnwys sŵn, goleuadau, ansawdd aer a llwch, dirgryniad, creu traffig a gwahanu, newidiadau mynediad sy'n effeithio ar gyfleusterau cymunedol, ac effeithiau pryder neu lesiant meddyliol sy'n deillio o aflonyddwch hir. Dylai'r llwybr archwilio wahaniaethu rhwng effeithiau'r cyfnod adeiladu ac effeithiau'r cyfnod gweithredol (a, lle bo hynny'n berthnasol, effeithiau'r cyfnod datgomisiynu — gweler Paragraff 8.21), gan fod y poblogaethau, y cyfnodau a'r dulliau lliniaru fel arfer yn wahanol. Fel rheol caiff effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu eu lliniaru trwy Gynlluniau Rheoli

Amgylcheddol Adeiladu (CEMPs) ac amodau cynllunio; dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd nodi pa fesurau yn ystod y cyfnod adeiladu y dylid eu cynnwys yn y dulliau hyn.

- 8.21. Ar gyfer mathau o ddatblygu lle gwneir gwaith datgomisiynu, adfer neu ôl-ofal - gan gynnwys mwyngloddio brig a datblygiadau mwynau eraill, cynhyrchu a storio ynni, cyfleusterau gwastraff, a datblygu diwydiannol mawr - mae'r effeithiau ar iechyd yn ystod y cyfnodau hyn yn gofyn am sylw tebyg i'r rheiny sy'n codi yn ystod y gwaith adeiladu²³. Dylai'r llwybr archwilio wahaniaethu'r effeithiau hyn oddi wrth effeithiau'r cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredol, gan fod y poblogaethau, yr amseru a'r dulliau lliniaru fel rheol yn wahanol. Fel rheol caiff mesurau lliniaru eu sicrhau trwy gynlluniau adfer ac ôl-ofal, rhwymedigaethau cynllunio ac amodau datgomisiynu; dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd nodi pa fesurau y dylid eu cynnwys yn y dulliau hyn.
- 8.22. Dylai dyfnder yr arfarniad adlewyrchu'r llwybr y cytunwyd arno neu'r haen. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym yn defnyddio tystiolaeth bresennol yn bennaf, wedi'i hategu gan waith ymgysylltu penodol a barn broffesiynol gymesur. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr yn cynnwys ymgysylltu sylfaenol a dadansoddiad manylach. Pan fo ymarfer sgrinio yn cynnwys gwybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, dylai'r cam gwerthuso ynddo fod yn fyr ac wedi'i esbonio'n glir, gan ganolbwyntio ar y prif effeithiau a'r ymatebion dylunio.
- 8.23. Nid ymarfer mecanyddol yw arfarniad. Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i dystiolaeth gael ei dehongli yn ei chyd-destun, gan egluro'r dyfarniadau'n glir. Lle mae'r dystiolaeth yn ansicr neu'n gyfyngedig, dylid cydnabod hyn yn hytrach na'i anwybyddu.

²³ Mae'r ystyriaethau nodweddiadol yn cynnwys sŵn, llwch ac ansawdd aer, traffig, a'r posibilrwydd o aflonyddu ar dir halogedig neu ddeunyddiau peryglus, ochr yn ochr ag effeithiau pryder neu lesiant meddyliol sy'n gysylltiedig â chau safle a newidiadau i'r dirwedd a'r gymuned leol.

Cam 4: Adrodd ac Argymhellion

Dangos sut mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi llunio'r cynnig

Nid dogfen i'w chyflwyno yn unig yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae canfyddiadau'r Asesiad wedi dylanwadu ar ddyluniad a chynnwys y cynnig. Dylai'r adroddiad, neu ddatganiad byr sy'n cyd-fynd ag ef, ddarparu llwybr archwilio clir sy'n cysylltu pob effaith ar iechyd a nodwyd, y boblogaeth yr effeithir arni, arwyddocâd yr effaith, a'r argymhelliad neu'r ymateb dylunio o ganlyniad.

- 8.24. Dylai adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fod yn ddogfen gymesur a hunangynhwysol sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol, yr ymgynghoreion a'r gymuned ddeall:
 - a. beth yw'r cynnig;
 - b. pa ystyriaethau iechyd a llesiant sydd wedi'u harchwilio;
 - c. pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd;
 - d. â phwy yr ymgysylltwyd a'r safbwyntiau a fynegwyd;
 - e. y casgliadau y daeth yr asesiad iddynt; a
 - f. beth a gynigir mewn ymateb.
- 8.25. Dylai argymhellion fodloni'r meini prawf a nodir yn nhestun atodol INF2: dylent fod yn glir, yn gryno, yn realistig, yn gyraeddadwy, o nifer y gellir dygymod â hwy, yn ddiduedd, yn seiliedig ar dystiolaeth a, lle bo'n bosibl, dylid bod wedi cytuno arnynt trwy gonsensws. Dylent wahaniaethu'n glir rhwng:
 - a. mesurau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn nyluniad y cynnig;
 - b. mesurau a argymhellir fel amodau cynllunio;
 - c. mesurau a argymhellir fel rhwymedigaethau cynllunio (Adran 106); a
 - d. mesurau sy'n argymhellion i eraill, y tu hwnt i gwmpas y caniatâd cynllunio ei hun.
- 8.26. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig gan mai dim ond y tri cyntaf sydd o fewn cyrhaeddiad y system gynllunio. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi pwysau ar argymhellion yn unol â hynny wrth wneud penderfyniadau.

- 8.27. Lle mae argymhellion yn deillio o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, dylai'r adroddiad ddangos llwybr archwilio clir sy'n dangos, ar gyfer pob argymhelliad:
- y penderfyniadau iechyd neu'r effaith a nodwyd;
 - y grŵp neu'r grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt;
 - arwyddocâd neu faint yr effaith; a
 - yr argymhelliad i wella'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol, gan nodi atebolrwydd lle bo'n bosibl.
- 8.28. Caiff ymgeiswyr eu hannog i gynnwys crynodeb dwyieithog nad yw'n dechnegol, er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddealladwy i gynulleidfaoedd nad ydynt yn arbenigol.

Cam 5: Monitro ac Adolygu

- 8.29. Mae INF2 yn cyfeirio at ddull dilyniannol pedwar cam (Camau 1 i 4 uchod). Mae [Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol](#) gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn disgrifio pumed cam - adolygu a myfyrio, sy'n cwmpasu monitro a gwerthuso. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn mynd i'r afael â'r pumed cam hwnnw yma fel bod gan ymgeiswyr sy'n dilyn methodoleg Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru ddisgwyliadau clir gan awdurdodau lleol, gan gydnabod ei fod yn eistedd y tu hwnt i'r pedwar cam sy'n ofynnol yn ffurfiol gan Bolisi INF2.
- 8.30. Mae'n ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng dwy brif ffurf o fonitro yng nghyd-destun Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:
- ➔ Monitro'r gwaith gweithredu yw'r gwaith arferol o wirio bod yr ymatebion dylunio, y mesurau lliniaru, yr amodau cynllunio neu'r rhwymedigaethau cynllunio a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd. Mae hyn yn rhan o rôl arferol yr awdurdod lleol ar ôl rhoi caniatâd cynllunio ac mae'n berthnasol i bob Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn gymesur â'r hyn y mae'r Asesiad yn ei sicrhau.
 - ➔ Monitro canlyniadau yw'r ymarfer sy'n defnyddio mwy o adnoddau o wirio a yw'r effeithiau a ragwelir ar iechyd a llesiant yn cael eu gwireddu, ac a yw'r mesurau lliniaru yn gweithio fel y bwriadwyd. Nid yw'r awdurdod lleol fel rheol yn gofyn am fonitro canlyniadau ar ôl rhoi caniatâd.

- 8.31. Er mwyn i fonitro'r gwaith gweithredu fod yn effeithiol, dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd nodi'n glir unrhyw argymhellion sy'n dibynnu ar amodau cynllunio, rhwymedigaethau Adran 106 neu ddulliau ffurfiol eraill, a dylai wahaniaethu'r rhain oddi wrth faterion sydd y tu allan i'r system gynllunio (gweler maen prawf 10.14(h) a Pharagraffau 10.9–10). Pan gaiff gwaith monitro ei sicrhau drwy amodau neu rwymedigaethau cynllunio, dylid trafod y dangosyddion perthnasol, eu hamlder a'r trefniadau adrodd ar y cam cyn ymgeisio er mwyn gallu drafftio'r amodau yn ddigon manwl ar y pwynt o roi caniatâd.
- 8.32. Ar gyfer cynlluniau sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr, dylid trafod dull monitro cymesur ar y cam cyn ymgeisio.
- 8.33. Y tu hwnt i fonitro yn ystod ac ar ôl gweithredu, mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn argymhell bod y rhai sy'n ymwneud ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cynnal adolygiad ac yn myfyrio ar asesiadau wedi'u cwblhau - gan ystyried beth weithiodd, beth na weithiodd, a'r hyn y gellir ei ddysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae hyn yn arfer da yn hytrach na gofyniad o dan INF2. Mae'r awdurdod lleol yn annog ymgeiswyr, asiantau ac ymgynghorwyr sy'n gweithio ar gynlluniau lluosog yn y sir i rannu'r hyn a ddysgir lle bo hynny'n briodol.

Nodyn ar fonitro strategol

- 8.34. Yn ogystal â monitro'r gwaith gweithredu, canlyniadau a gwerthuso a ddisgrifir uchod - sy'n ymwneud ag Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd unigol a'r datblygiad y maent yn berthnasol iddo - mae'r awdurdod lleol yn monitro gweithrediad INF2 ar y lefel strategol trwy'r Adroddiad Monitro Blyneddol. Mae hyn yn cynnwys data cyfanredol ar gyfaint a haen yr Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynwyd, ac ar unrhyw gyflyrau neu rwymedigaethau sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd a sicrhawyd. Bydd yr awdurdod lleol yn adolygu ei ymagwedd ac yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd mewn unrhyw adolygiad o'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn y dyfodol.https://phwwhocc.co.uk/whiasu/wp-content/uploads/sites/3/2021/05/WHIASU_2017_QA_Review_Framework_for_HIA_FINAL_GUIDANCE-1.pdf

9. Gofynion yn ôl Math o Gais

- 9.1. Mae'r bennod hon yn nodi'r gofynion nodweddiadol ar gyfer pob math o gais cynllunio. Dylid ei darllen ochr yn ochr â [Phennod 6](#) (sy'n nodi pryd mae angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ac ar ba haen) a [Phennod 8](#) (sy'n nodi proses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd).
- 9.2. Oherwydd bod INF2 yn berthnasol i ddatblygiad mawr sy'n bodloni trothwyon diffiniedig, anaml y mae angen Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer datblygiad gan ddeiliaid tŷ, mân ddatblygiad neu ddatblygiad a ganiateir, er y gellir cymhwyso'r llwybr yn ôl disgrisiwn mewn amgylchiadau penodol.

Ceisiadau Mawr

- 9.3. Rhaid cyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i gyd-fynd â datblygiad mawr sy'n bodloni unrhyw un o'r trothwyon INF2. I grynhoi, dylai ymgeiswyr:
- a. ymgymryd â sgrinio yn gynnar yn y broses ddylunio a chadarnhau haen yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyda'r awdurdod lleol ar y cam cyn ymgeisio (gweler [Pennod 8](#));
 - b. cytuno ar gwmpas yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyda'r awdurdod lleol, gyda mewnbwn gan randdeiliaid lle bo hynny'n briodol;
 - c. cyflwyno adroddiad ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyda'r cais, wedi'i baratoi yn unol â'r cwmpas a'r haen y cytunwyd arnynt, ac sy'n ystyried canllawiau cyfredol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru a'r arfer sefydledig; a
 - d. gwneud yn siŵr bod argymhellion wedi'u cysylltu'n glir â dyluniad y cynnig, wedi'u sicrhau o bosibl trwy amodau neu rwymedigaethau arfaethedig²⁴, neu wedi'u nodi fel argymhellion i eraill (gweler Paragraff 8.26).
- 9.4. Lle mae'r cynnig hefyd yn ddatblygiad sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel arfer yn un cynhwysfawr a dylid ei gydlynw â'r Datganiad Amgylcheddol.

²⁴ Bydd unrhyw amodau neu rwymedigaethau cynllunio yn ddarostyngedig i gytundeb â'r awdurdod lleol drwy'r broses ymgeisio a phenderfynu.

Ceisiadau Amlinellol

- 9.5. Dylai ceisiadau amlinellol ar gyfer datblygiad mawr sy'n bodloni'r trothwyon INF2 fod yn cyd-fynd ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sy'n gymesur â'r lefel o fanylion sydd ar gael yn yr amlinelliad. Dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:
- fynd i'r afael â materion a bennwyd ar y cam amlinellol — yn enwedig yr egwyddor o ddatblygu, cwantwm, mynediad a threfn gyffredinol y defnyddiau;
 - dangos sut mae ystyriaethau iechyd a llesiant wedi llywio'r cynllun a'r paramedrau dangosol; a
 - nodi'n glir pa faterion sydd i gael sylw ar y cam materion a gadwyd yn ôl, fel y gellir eu sicrhau gan amod lle bo hynny'n briodol.
- 9.6. Pan na ellir datrys materion sylweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd ar y cam amlinellol, dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd nodi'r egwyddorion sydd i'w cymhwyso a dangos y gall y safle eu bodloni.
- 9.7. Ni ddylid gohirio cyfyngiadau sylfaenol i'r cam materion a gadwyd yn ôl. Dylai ystyried iechyd a llesiant fod yn rhan annatod o ddatblygu'r cynnig o'r cychwyn cyntaf; efallai na fydd gadael y materion hyn i fynd i'r afael â nhw yn hwyr yn y broses yn cyd-fynd ag INF2.

Mathau Eraill o Ddatblygiadau

- 9.8. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau gan ddeiliaid tai a mân geisiadau yn cwmpo o dan y trothwyon INF2 ac efallai na fydd angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd arnynt. Serch hynny, caiff ymgeiswyr am ddatblygiad o'r fath eu hannog i gwblhau proses sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fer (gweler [Pennod 8](#) ac [Atodiad B](#)), fel gwiriad cynnar o'r effeithiau ar iechyd a llesiant. Pan fydd cais gan ddeiliad tŷ neu fân gais yn cwmpo islaw'r trothwyon ond yn cynnwys un o'r sbardunau yn ôl disgrisiwn ym Mharagraff 6.9, caiff yr awdurdod lleol ofyn am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd neu wybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i sicrhau bod SP12(a) yn cael ei gynnal. Fel rheol bydd hyn yn cael ei drafod ar y cam cyn ymgeisio.
- 9.9. Ar gyfer ceisiadau newid defnydd, gweler Paragraff 6.5, sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer sgrinio a gwybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer newidiadau defnydd sydd â goblygiadau iechyd.

- 9.10. Nid oes angen cais cynllunio ar gyfer datblygiad a wneir o dan hawliau datblygu a ganiateir ac nid yw'n ddarostyngedig i INF2 na'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn. Pan fydd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw neu hysbysiad ymlaen llaw, cyfyngir yr ystyriaeth i'r materion a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol ac nid yw'n cynnwys gofyniad cyffredinol ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

10. Y Broses o wneud Cais Cynllunio

Ymgysylltu Cyn Ymgeisio

- 10.1. Yn achos pob cynnig sy'n debygol o fodloni'r trothwyon INF2, mae'r awdurdod lleol yn annog yr ymgeisydd i ymgysylltu'n gynnar cyn gwneud cais. Dyma'r cam lle gall y trafodaethau mwyaf defnyddiol ddigwydd o ran yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd - cyn i gynllun gael ei gadarnhau'n derfynol a phan fydd newidiadau dylunio yn dal i fod yn gymharol hawdd i'w gwneud. Ar y cam cyn ymgeisio, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio:
- a. sefydlu a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd;
 - b. cadarnhau'r llwybr neu'r haen sy'n briodol (ymarfer sgrinio, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym neu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr);
 - c. cytuno ar gwmpas yr asesiad, gan gynnwys penderfynyddion perthnasol iechyd a'r boblogaethau yr effeithir arnynt;
 - d. cytuno ynghylch sut y bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cael ei gydlynw ag unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol (lle mae'r cynnig yn ddatblygiad sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol – gweler [Pennod 7](#)); a
 - e. nodi ymgylgoreion priodol a'r dull o ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid.
- 10.2. Mae ymgysylltu'n gynnar yn lleihau'r risg o gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd nad yw'n addas i'r diben ac yn helpu i osgoi oedi yn ddiweddarach yn y broses. Caiff ymgeiswyr eu hannog i ddefnyddio gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio ffurfiol yr awdurdod lleol at y diben hwn

Ymgynghori

- 10.3. Gall yr awdurdod lleol ymgynghori â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio, gan adlewyrchu ei rôl fel corff lleol y GIG sydd ag arbenigedd iechyd cyhoeddus perthnasol. Nid yw Hywel Dda yn ymgynghorai statudol o dan *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012*; mae ymgysylltu yn ôl disgrisiwn y ddau gorff cyhoeddus a chaiff ei wneud lle byddai'n llywio'r asesiad yn ystyrlon.
- 10.4. Gellir ymgynghori ag ymgylgoreion eraill (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd/Amgylchedd, Priffyrdd ac Addysg yr awdurdod lleol ei hun, a Chynghorau Tref a Chymuned) yn unol â'u cylch gorchwyl priodol.

- 10.5. Nid yw'r awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ymgynghori â'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol ond mae'n annog hyn ar gyfer cynigion sydd â goblygiadau iechyd sylweddol neu ddadleuol. Lle mae ymgysylltu uniongyrchol wedi digwydd, dylid ei ddogfennu yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd perthnasol.

Sut y caiff Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau

- 10.6. Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'n un o ystod o ystyriaethau i'w pwysu ochr yn ochr â'r cynllun datblygu a materion perthnasol eraill. Yn ymarferol, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau mewn tair ffordd:
- Mae'n llywio dyluniad a chynnwys y cais ei hun, lle mae'r ymgeisydd wedi mynd i'r afael â materion a nodwyd trwy'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd cyn eu cyflwyno.
 - Mae'n llywio'r cydbwysedd cynllunio wrth benderfynu, lle mae'r awdurdod lleol yn pwysu effeithiau iechyd a llesiant ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill.
 - Mae'n cefnogi'r defnydd o amodau a rhwymedigaethau cynllunio, lle caiff mesurau penodol eu sicrhau trwy'r caniatâd ei hun.
- 10.7. Mae'r pwysau sydd i'w roi i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (gan gynnwys ei argymhellion) yn fater i'r sawl a fydd yn penderfynu a yw cynnig yr ymgeisydd wedi dangos cydymffurfiaeth â'r CDLI. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi sylw arbennig i argymhellion sy'n glir, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur ac yn gallu cael eu cyflawni drwy'r system gynllunio.

Amodau a Rhwymedigaethau Cynllunio

- 10.8. Pan fydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn nodi mesurau, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried a yw'r rhain yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Mewn achos o'r fath, gellir eu sicrhau drwy:
- amodau cynllunio, lle caiff y profion perthnasol yng *Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: – Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu* eu bodloni; neu
 - rwymedigaethau cynllunio o dan Adran 106 o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*, pan lle maent yn bodloni'r profion statudol yn Rheoliad 122 o *Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010*.²⁵

²⁵ Sef bod y rhwymedigaeth: (i) yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio; (ii) yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; a (iii) o ran ei maint a'i math, yn berthnasol i'r datblygiad, mewn modd teg a rhesymol.

- 10.9. Ni fydd pob un o argymhellion yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn arwain at amod neu rwymedigaeth cynllunio. Bydd argymhellion sydd y tu allan i gwmpas y system gynllunio - er enghraifft, y rheiny sydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau iechyd, ysgolion neu gyrff eraill - yn cael eu hystyried wrth asesu'r cais ond ni ellir eu cynnwys fel rhan o'r caniatâd. Cyfeirir at *Ganllaw Cynllunio Atodol - Rhwymedigaethau Cynllunio*.

Cymhwysedd

- 10.10. Mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gael eu paratoi gan unigolion sydd â chymhwysedd priodol mewn ymarfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, boed yn arbenigwyr mewnol, ymgynghorwyr cynllunio gydag arbenigedd perthnasol, neu weithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol. Nid oes angen achrediad ffurfiol ar awduron; fodd bynnag, dylai ymgeiswyr allu dangos bod gan awdur yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Mae [Fframwaith Adolygu Sicrhau Ansawdd Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru](#) yn bwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer deall y safon y bydd yr awdurdod lleol yn ei harddel wrth arfarnu Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynwyd.
- 10.11. Pan gaiff Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ei gomisiynu gan ymgynghorydd allanol, yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan y darparwr y sgiliau a'r profiad angenrheidiol.
- 10.12. O ystyried pwysigrwydd cyd-destun lleol i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, dylai ymgeiswyr sicrhau bod gan bwy bynnag sy'n paratoi'r asesiad ddealltwriaeth gadarn o'r ardal lleol, ei chymunedau a'i phroffil iechyd - er enghraifft trwy brofiad o ymgysylltu lleol a bod yn gyfarwydd â'r defnydd o ddata lleol perthnasol. Mae hyn yn ymwneud â'r wybodaeth sy'n llywio'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, ac nid o reidrwydd lleoliad yr ymarferydd.
- 10.13. Efallai na fydd Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd nad ydynt yn dangos cymhwysedd priodol wrth gael eu paratoi a'u gweithredu yn cael eu derbyn fel rhai sy'n ddigonol i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau.

Sicrhau Ansawdd

- 10.14. Wrth adolygu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a gyflwynwyd, bydd yr awdurdod lleol yn asesu ei ansawdd, ei gadarnhad a'i ddigonolrwydd fel ystyriaeth gynllunio berthnasol. Wrth wneud hynny, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried, yn benodol, a yw'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:
- Cymesuredd a haenu — yn gymesur â graddfa, natur ac arwyddocâd tebygol yr effeithiau ar iechyd a llesiant, ac yn cyd-fynd â'r haen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd briodol a nodwyd ym Mhennod 6;
 - Cadw at fethodoleg gydnabyddedig — wedi'i wneud yn unol â methodoleg Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gydnabyddedig a thryloyw, sy'n gyson â chanllawiau cyfredol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, yn enwedig *Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol* neu unrhyw ganllawiau olynol, ac yn dangos proses glir a systematig;

- c. Cwmpas a chyrhaeddiad — yn mynd i'r afael â'r cwmpas y cytunwyd arno ar y cam cyn ymgeisio, gan gynnwys y penderfynyddion iechyd a nodwyd fel rhai sy'n berthnasol i'r cynnig, ac yn esbonio'n glir unrhyw wriad o'r cwmpas hwnnw;
- d. Poblogaeth ac anghydraddoldebau — yn nodi'r boblogaeth sy'n debygol o ddioddef effeithiau, gan gynnwys unrhyw grwpiau agored i niwed neu dan anfantais, ac yn ystyried sut mae effeithiau'n cael eu dosbarthu ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth, gan gynnwys unrhyw anghydraddoldebau iechyd posibl;
- e. Sylfaen dystiolaeth — yn cael ei lywio gan sylfaen dystiolaeth gadarn, gymesur a pherthnasol yn lleol, gan ddefnyddio data meintiol ac ansoddol priodol, gwybodaeth gyfredol am y proffil iechyd lleol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol lle bo hynny'n briodol;
- f. Asesiad o effeithiau — yn ystyried effeithiau sy'n codi yn ystod y gwaith adeiladu ac unwaith y bydd y datblygiad yn weithredol, dros y tymor byr, canolig a hir, ac yn asesu natur, maint ac arwyddocâd yr effeithiau hynny;
- g. Tryloywder a llwybr archwilio — yn darparu llwybr archwilio clir a thryloyw sy'n cysylltu'r dystiolaeth a gasglwyd, yr effeithiau ar iechyd a nodwyd, y poblogaethau yr effeithir arnynt, a'r ymatebion dylunio, argymhellion neu liniaru sy'n deillio o hynny;
- h. Argymhellion a chyflawnadwyedd — yn nodi argymhellion clir, cymesur a chyflawnadwy sy'n gysylltiedig â'r effeithiau a nodwyd, gan gynnwys unrhyw liniaru, gwella, newidiadau dylunio, amodau cynllunio neu rwymedigaethau sydd eu hangen i'w sicrhau, ac yn gwahaniaethu'r rhain oddi wrth faterion sy'n dod y tu allan i'r system gynllunio;
- i. Ansawdd a chymhwysedd — wedi'i baratoi gan awdur sydd â chymhwysedd priodol (gweler Paragraffau 10.10–13), yn fewnol gyson, wedi'i gyflwyno'n glir a chyda cyfeiriadau digonol, ac yn cydnabod unrhyw gyfyngiadau yn y dystiolaeth neu'r asesiad.

10.15. Lle mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn anghyflawn, heb fod yn ddigon cadarn, yn anghyson, yn methu â mynd i'r afael â'r cwmpas y cytunwyd arno, neu nad yw'n darparu digon o dystiolaeth i gefnogi ei gasgliadau, gall yr awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd. Mewn achosion mwy arwyddocaol, gellir gwahodd yr ymgeisydd i adolygu ac ailgyflwyno'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd cyn penderfynu ar y cais.

11. Ystyriaethau Lleol

- 11.1. Mae'r bennod hon yn tynnu sylw at ystyriaethau arbennig o berthnasol yn Sir Gaerfyrddin y mae'r awdurdod lleol yn disgwyl i Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd eu cynnwys lle maent yn berthnasol i gynnig. Nid yw'n nodi methodolegau pwrpasol; yn hytrach, mae'n nodi materion y dylid eu hystyried yn benodol wrth gwmpasu.
- 11.2. Nid yw'r rhestr yn cynnwys popeth. Dylai ymgeiswyr ac ymgynghorwyr ddefnyddio barn broffesiynol, wedi'i llywio gan fframwaith penderfynyddion Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, i nodi materion perthnasol yn lleol wrth gwmpasu.

Creu Lleoedd

- 11.3. Mae dyluniad, cynllun a dwysedd y datblygiad yn cael dylanwad sylweddol ar iechyd a llesiant. Gall lleoedd wedi'u cynllunio'n dda gefnogi ffyrdd o fyw egniol, rhyngweithio cymdeithasol a mynediad at wasanaethau, tra gall datblygiad wedi'i gynllunio'n wael gyfrannu at unigedd, dibyniaeth ar geir a llai o weithgarwch corfforol. Mae'r awdurdod lleol wedi llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru, a dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd roi sylw i'w hegwyddorion lle mae hynny'n berthnasol.
- 11.4. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried, lle bo'n berthnasol:
- a. a yw ffurf, cynllun a dwysedd datblygiad yn cefnogi cymdogaethau sydd o fewn pellter cerdded a mynediad at wasanaethau;
 - b. athreiddedd y safle a'i gysylltedd â'r ardaloedd cyfagos;
 - c. mynediad at fannau agored cyhoeddus sydd wedi'u hintegreiddio a chyfleoedd ar gyfer hamdden anffurfiol;
 - d. ansawdd, diogelwch a defnyddioldeb yr amgylchfyd cyhoeddus, gan gynnwys strydoedd a mannau i'w cyd-ddefnyddio; a
 - e. y berthynas rhwng dwysedd, cymysgedd tai a chyd-destun lleol, gan gynnwys lleoliadau gwledig a threfol.
- 11.5. Yn unol â SP12, dylai cynigion ddangos sut mae creu lleoedd yn cefnogi ymddygiadau iach a rhyngweithio cymdeithasol trwy ddylunio a chynllunio datblygiad.

Amddifadedd ac anghydraddoldebau iechyd

- 11.6. Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd sylweddol, ochr yn ochr â chymunedau mwy cyfoethog. Adlewyrchir hyn ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ac mae'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau amlwg mewn canlyniadau iechyd. Mae amddifadedd yn y sir wedi'i grynhoi mewn cymunedau penodol, ac mae sefyllfa gymharol ardaloedd unigol yn newid wrth i MALIC gael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Felly, dylai ymgeiswyr ymgynghori â data cyfredol MALIC ar gyfer yr ardal benodol sy'n debygol o ddioddef effeithiau, yn hytrach na dibynnu ar safleoedd hanesyddol, a dylent roi sylw arbennig i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig lle maent yn dod o fewn ardal yr astudiaeth. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldebau ehangach yr awdurdod lleol i ystyried lleihau'r anghydraddoldebau canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- 11.7. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried, lle bo'n berthnasol:
- a yw'r cynnig wedi'i leoli o fewn ardaloedd a nodwyd fel rhai difreintiedig yn MALIC, neu'n debygol o effeithio arnynt;
 - sut y gall y cynnig gyfrannu at leihau neu waethygu anghydraddoldebau iechyd;
 - mynediad at gyflogaeth, addysg, gwasanaethau a thai fforddiadwy;
 - fforddiadwyedd trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau hanfodol;
 - darparu cyfleusterau a chyfleoedd lleol i gefnogi cydlyniant cymdeithasol a gwytnwch; a
 - a yw manteision y cynnig yn debygol o gael eu dosbarthu'n deg ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth.
- 11.8. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i gynigion a allai gynyddu anghydraddoldebau, naill ai trwy ddadleoli, llai o fynediad at wasanaethau, neu effeithiau amgylcheddol sy'n effeithio'n anghymesur ar gymunedau mwy difreintiedig.

Plant a Phobl Ifanc

- 11.9. Mae plant a phobl ifanc yn arbennig o sensitif i effeithiau'r amgylchedd adeiledig ar iechyd. Mae profiadau bywyd cynnar yn cael dylanwad parhaol ar iechyd a llesiant trwy gydol oes. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried, lle bo'n berthnasol:
- a. mynediad at fannau chwarae diogel o ansawdd uchel a chyfleoedd hamdden (gweler PSD8 a PSD9, a *Canllaw Cynllunio Atodol Mannau Agored*);
 - b. llwybrau diogel, cyfleus a deniadol i ysgolion a chyfleusterau cymunedol;
 - c. dod i gysylltiad â risgiau amgylcheddol, gan gynnwys ansawdd aer, sŵn a thraffig;
 - d. cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, annibyniaeth a gweithgarwch corfforol;
a
 - e. y berthynas rhwng datblygu ac ysgolion lleol, gan gynnwys hygyrchedd a chapasiti lle bo hynny'n berthnasol.

Poblogaeth sy'n Heneiddio

- 11.10. Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth sy'n heneiddio, gyda chyfran uwch o bobl hŷn na'r cyfartaledd yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau dros y blynyddoedd i ddod²⁶. Mae gan hyn oblygiadau pwysig i iechyd a llesiant, ac i'r modd y caiff lleoedd eu cynllunio a'u dylunio. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried, lle bo'n berthnasol:
- a. hygyrchedd gwasanaethau, cyfleusterau a mannau cyhoeddus i bobl hŷn, gan gynnwys pellteroedd cerdded, graddiannau a dylunio cynhwysol;
 - b. addasrwydd tai, gan gynnwys y gallu i'w haddasu, egwyddorion cartrefi oes a'r gallu i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol;
 - c. mynediad at ofal iechyd, gofal cymdeithasol a rhwydweithiau cymorth cymunedol;
 - d. cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac atal unigrwydd ac unigedd; a
 - e. diogelwch ac eglurder yr amgylchfyd cyhoeddus, gan gynnwys goleuadau, croesfannau ac arwyddion cyfeirio.

²⁶ [Principal projection 2024 - Wales summary - Office for National Statistics \(rhyddhawyd Ebrill 2026\)](#)

Yr Iaith Gymraeg

- 11.11. Mae'r Gymraeg yn ddimensiwn cydnabyddedig o lesiant yng Nghymru, ac mae Sir Gaerfyrddin yn cynnwys rhai o gymunedau Cymraeg cryfaf y wlad. Gweler *WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd*. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried, lle bo'n berthnasol:
- a. effaith y cynnig ar fywiogrwydd cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys y rhwydweithiau cymdeithasol, y cyfleusterau cymunedol a'r mannau anffurfiol y caiff yr iaith ei chynnal drwyddynt;
 - b. cyfansoddiad demograffig poblogaethau newydd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad ac unrhyw oblygiadau ar gyfer cydlyniant cymunedol a'r defnydd o'r iaith; ac
 - c. argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau cyfrwng Cymraeg i ddiwallu anghenion y boblogaeth newydd.
- 11.12. Pan gaiff Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hefyd ei baratoi, dylai'r HIA groesgyfeirio ato yn hytrach na dyblygu'r hyn y mae'n ei ddadansoddi. Mae'r ddau asesiad yn gwasanaethu dibenion cysylltiedig ond gwahanol.

Defnyddiau sensitif a phoblogaethau agored i niwed

- 11.13. Dylai cynigion ar gyfer defnyddiau sensitif — gan gynnwys ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, cartrefi gofal, tai â chymorth a chyfleusterau gofal iechyd — roi sylw penodol i ddewis a dylunio safleoedd o safbwynt y poblogaethau y byddant yn eu gwasanaethu. I'r gwrthwyneb, dylai cynigion a allai effeithio ar ddefnyddiau sensitif presennol (er enghraifft, trwy ansawdd aer, sŵn neu wahanu cymunedol) ystyried yr effeithiau ar y poblogaethau hynny yn benodol.

Datblygu Aneddiadau Gwledig a Gwasgaredig

- 11.14. Mae llawer o Sir Gaerfyrddin yn wledig, gyda datblygiadau wedi'u gwasgaru ar draws rhwydwaith o drefi bach, pentrefi a phentrefannau. Yn y cyd-destun hwn, gan gwmpasu SP12(g) (teithio llesol a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus) ac SP12(h) (cysylltiadau â seilwaith cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol), dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd roi sylw arbennig i:
- a. mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, lle gall pellter a thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig wneud mynediad arferol at ofal iechyd, ysgolion, siopau a seilwaith cymdeithasol yn anodd, yn enwedig i'r rheiny sydd heb ddefnydd o gar;
 - b. tlodi trafndiaeth, lle gall cost ac argaeledd trafndiaeth waethygu amddifadedd ac unigedd;
 - c. teithio llesol, lle gall lleoliadau gwledig gynnig cyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau cerdded a beicio ond lle gallant hefyd fod â chyfyngiadau sylweddol (gan gynnwys diogelwch ar y ffyrdd, gwahanu gan gefnffyrdd a chyrchfannau gwasgaredig);
 - d. cysylltedd digidol a pherthynas hyn â mynediad at wasanaethau, gweithio gartref, a chysylltiad cymdeithasol; ac
 - e. unigrwydd ac unigedd cymdeithasol, yn enwedig ymhlith pobl hŷn a phobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain.
- 11.15. Yn aml nid yw'r materion hyn yn cael sylw digonol mewn Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a baratowyd gan ymgynghorwyr sy'n fwy cyfarwydd â datblygu trefol. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi sylw penodol i'r cwestiwn a ydynt wedi cael eu hystyried yn gymesur ar y cam cwmpasu.

Sŵn

- 11.16. Mae sŵn yn benderfynydd cydnabyddedig o iechyd corfforol a meddyliol, gyda'r effeithiau yn cynnwys aflonyddwch cwsg, effeithiau cardiofasgwlaidd o amlygiad cronig, a dirywiad mewn llesiant meddyliol, sy'n aml yn effeithio'n anghymesur ar grwpiau agored i niwed. Mae PSD11 yn darparu'r fframwaith rheoli datblygu. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer cynigion sy'n debygol o gynhyrchu sŵn sy'n effeithio ar dderbynyddion sensitif, neu ar gyfer defnyddiau sensitif a gynigir mewn lleoliadau swnllyd, adlewyrchu gofynion PSD11 a mynd i'r afael â'r goblygiadau iechyd a llesiant, gan gynnwys unrhyw ddosbarthiad anghyfartal ar

draws poblogaethau yr effeithir arnynt. Pan gaiff asesiad sŵn ei baratoi i ategu'r cais, dylid cydlynu'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ag ef gyda golwg ar dderbynyddion, amlygiad a lliniaru.

Ansawdd Aer

- 11.17. Mae ansawdd aer yn effeithio ar iechyd anadlol, cardiofasgwlaidd a meddwl, gydag amlygiad fel arfer yn cwmpo'n anwastad ar grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant, pobl hŷn, y rhai sydd â chyflyrau sy'n bodoli eisoes, a chymunedau sy'n byw yn agos at ffyrdd prysur neu ffynonellau diwydiannol. Mae PSD12 yn darparu'r fframwaith rheoli datblygu ar gyfer cynigion sy'n arwain at bryderon ansawdd aer, neu sy'n cael eu heffeithio ganddynt. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer cynigion o'r fath adlewyrchu gofynion PSD12, mynd i'r afael â dosbarthiad amlygiad ar draws poblogaethau yr effeithir arnynt, a chael eu cydlynu ag unrhyw asesiad ansawdd aer a baratowyd i ategu'r cais.
- 11.18. Lle mae arogl yn debygol o fod yn fater o bwys – er enghraifft o wastraff, diwydiant, neu gynigion amaethyddol – dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd fynd i'r afael ag ef ochr yn ochr ag ystyriaethau ansawdd aer eraill.
- 11.19. Dylai cynigion o fewn neu gerllaw Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) - neu mewn lleoliadau lle mae ansawdd aer yn gyfyngiad hysbys - roi sylw penodol i ansawdd aer ac effeithiau iechyd cysylltiedig, gan gynnwys dosbarthiad amlygiad ar draws grwpiau agored i niwed. Dylid cydlynu'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ag unrhyw asesiad ansawdd aer a baratowyd i ategu'r cais.
- 11.20. Ar hyn o bryd mae gan Sir Gaerfyrddin dair Ardal Rheoli Ansawdd Aer ddynodedig, sef yn Llandeilo, Llanelli a Chaerfyrddin, sy'n gysylltiedig ag ardaloedd o grynodiadau nitrogen deuocsid uchel sy'n gysylltiedig yn bennaf â thraffig ffyrdd. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried y cyd-destun lleol hwn lle mae cynigion (gan gynnwys eu traffig cysylltiedig) yn agos at yr ardaloedd hyn.

Llygredd Golau

- 11.21. Mae gan olau artiffisial oblygiadau iechyd a gaiff eu cydnabod, gan gynnwys effeithiau ar gwsg, rhythm circadaidd a llesiant meddyliol, ochr yn ochr ag effeithiau ehangach ar y profiad o awyr dywyll y nos, a'r defnydd o'r amgylchfyd cyhoeddus ar ôl iddi dywyllu.
- 11.22. Mae effeithiau goleuadau yn codi yn ystod y gwaith adeiladu ac wrth weithredu'r safle. Mae effeithiau'r cyfnod adeiladu yn cynnwys goleuadau gwaith dros dro, goleuadau diogelwch safle a goleuadau sy'n gysylltiedig â gwaith nos, yn enwedig lle mae safleoedd adeiladu yn agos at eiddo preswyl neu ddefnyddiau sensitif eraill. Mae effeithiau'r cyfnod gweithredol yn deillio o ystod ehangach o ffynonellau, gan gynnwys goleuadau stryd mewn darpariaeth priffyrdd a ffyrdd ystadau newydd, goleuadau allanol ar adeiladau masnachol, diwydiannol a chymunedol, goleuadau chwaraeon a hamdden, a chyfraniad cronol goleuadau o'r eiddo preswyl newydd eu hunain (goleuadau ffenestri a goleuadau preswyl allanol). Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer cynigion sy'n arwain at oleuadau newydd sylweddol adlewyrchu gofynion PSD12 a mynd i'r afael â'r goblygiadau iechyd yn sgil goleuadau gormodol a goleuadau annigonol (gyda'r olaf yn effeithio ar ddiogelwch canfyddedig, mynediad ar ôl iddi dywyllu, a diogelwch traffig ffyrdd).
- 11.23. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu paratoi *Canllaw Cynllunio Atodol - Goleuadau ac Awyr Dywyll*; yn y cyfamser, dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru a chanllawiau'r Sefydliad Gweithwyr Goleuo Proffesiynol ar leihau golau ymwithiol a'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd.

Capasiti Gofal Iechyd a'r Galw amdano

- 11.24. Gall datblygiad gynyddu'r galw am wasanaethau gofal iechyd. Mewn rhai rhannau o Sir Gaerfyrddin, mae'r gwasanaethau presennol eisoes dan bwysau. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried, lle bo'n berthnasol:
- capasiti gwasanaethau gofal iechyd presennol, gan gynnwys darpariaeth sylfaenol, gymunedol ac ysbyty, megis gweithlu, cyfleusterau ac argaeledd gwelyau;
 - y cynnydd tebygol yn y galw sy'n deillio o'r cynnig;
 - a yw'r gwasanaethau presennol yn gallu darparu ar gyfer y galw hwnnw; ac
 - a allai fod angen mesurau lliniaru neu gyfraniadau i fynd i'r afael â'r effeithiau a nodwyd.

- 11.25. Mae hyn yn wahanol i faterion yn ymwneud â mynediad ffisegol at wasanaethau. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd roi sylw i'r dystiolaeth sydd ar gael gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda lle bo hynny'n briodol.

Tir Halogedig

- 11.26. Mae gan Sir Gaerfyrddin etifeddiaeth ddiwydiannol gyfoethog ac amrywiol, sy'n golygu bod yna nifer o safleoedd lle gallai'r tir fod wedi'i halogi. Mewn lleoliadau o'r fath, dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd roi sylw penodol i'r effeithiau iechyd posibl sy'n gysylltiedig â halogiad.
- 11.27. Diffinnir tir halogedig o dan Ran 2A o *Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990* fel tir sy'n ymddangos i'r awdurdod lleol ei fod mewn cyflwr o'r fath, oherwydd sylweddau yn, ar neu o dan y tir, bod niwed sylweddol yn cael ei achosi, neu fod yna bosibilrwydd sylweddol o niwed o'r fath; neu fod llygredd i ddyfroedd a reolir yn cael ei achosi, neu'n debygol o gael ei achosi. Nid yw presenoldeb halogyddion yn unig yn golygu bod tir yn bodloni'r diffiniad hwn. Mae risg yn codi dim ond pan fydd yna gysylltiad â'r llygrydd, sy'n cynnwys ffynhonnell, llwybr a derbynnydd.
- 11.28. Mae PSD13 yn darparu'r fframwaith rheoli datblygu ar gyfer cynigion ar dir halogedig, neu sy'n effeithio arno. Mae PSD13 yn gofyn am ddangos bod modd lliniaru unrhyw risgiau gwirioneddol neu bosibl yn briodol fel nad oes unrhyw effaith andwyol weddilliol ar iechyd pobl a'r amgylchedd. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a baratowyd ar gyfer cynigion o'r fath adlewyrchu gofynion PSD13 a'r dystiolaeth ategol a baratowyd i fynd i'r afael â nhw.
- 11.29. Pan gynigir datblygiad ar dir a allai fod wedi'i halogi neu gerllaw iddo, dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:
- ystyried ffyrdd posibl y gallai defnyddwyr y dyfodol a phoblogaethau cyfagos ddod i gysylltiad â'r halogiad, gan gynnwys grwpiau agored i niwed;
 - ystyried unrhyw asesiad risg tir halogedig neu strategaeth adfer a baratowyd i ategu'r cais;
 - ystyried y posibilrwydd o effeithiau ar iechyd yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn yr hirdymor; a
 - dangos sut y caiff risgiau eu hosgoi neu eu lliniaru trwy ddylunio'r safle a chymryd camau adferol.
- 11.30. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i archwilio ei ardal i adnabod tir halogedig ac i fynd i'r afael â risgiau annerbyniol. Mae [Strategaeth Archwilio Tir Halogedig Cyngor Sir Gaerfyrddin](#) yn nodi dull gweithredu'r awdurdod lleol. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ystyried y cyd-destun lleol hwn lle bo hynny'n berthnasol.

Amgylchedd Bwyd Iach

- 11.31. Mae'r awdurdod lleol yn nodi amgylchedd bwyd iach fel blaenoriaeth iechyd cyhoeddus. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â chludfwd poeth, neu ar gyfer datblygiadau mawr a fydd yn cyflwyno elfen adwerthu neu letygarwch newydd sylweddol, ystyried:
- a. agosrwydd at ysgolion a lleoliadau eraill a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc;
 - b. dwysedd presennol y mannau gwerthu cludfwd poeth yn yr ardal;
 - c. mynediad at ddewisiadau bwyd iachach, gan gynnwys adwerthu bwyd ffres fforddiadwy; a
 - d. y berthynas rhwng y cynnig a gordewdra plant lleol.
- 11.32. Mae hyn yn berthnasol p'un a yw'r cynnig yn bodloni'r trothwyon INF2 yn ei rinwedd ei hun neu'n cael ei ystyried o dan y llwybr yn ôl disgrisiwn (gweler Paragraffau 6.10-15).

Effeithiau Cronnus

- 11.33. Gall pwysau datblygu fod wedi'i grynhoi mewn cymunedau penodol, gan gynnwys ardaloedd trefol neu sy'n trefoli, ac ardaloedd sy'n mynd trwy newid sylweddol mewn cymeriad oherwydd graddfa a/neu gyfaint y datblygiadau diweddar ac arfaethedig. Pan fydd cynnig yn rhan o batrwm ehangach o ddatblygiadau diweddar neu wedi'u cynllunio mewn ardal, dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ystyried effeithiau cronnus ar iechyd a llesiant, gan gynnwys effeithiau ar wasanaethau, seilwaith, amwynder a chydlyniant cymdeithasol. Dylai trafodaethau cwmpasu nodi'r waelodlin briodol. Wrth nodi a oes patrwm o'r fath yn bodoli, dylai ymgeiswyr roi sylw i'r lleoliadau twf strategol a'r dyraniadau safleoedd a nodir yn y CDLI, ac i ddatblygiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt neu ddatblygiadau newydd yn yr ardal gyfagos.

Atodiad A: Y Cyd-Destun Deddfwriaethol a Pholisi

- A.1. Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o'r polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a'r fframwaith deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn. Mae'n crynhoi'r ddeddfwriaeth, y strategaethau a'r canllawiau allweddol sy'n llunio'r modd y caiff iechyd a llesiant eu hystyried yn y broses gynllunio ac yn ategu'r gwaith o weithredu INF2. Pwrpas yr atodiad hwn yw bod yn offeryn cyfeirio ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cyfeirio at y fersiynau diweddaraf o ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau wrth ddrafftio eu cynigion.

Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru

- A.2. Mae PCC yn sefydlu polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac yn gosod iechyd, llesiant a chreu lleoedd yng nghanol y system gynllunio. Mae PCC yn hyrwyddo'r gwaith o greu lleoedd iach, cynhwysol a chynaliadwy ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio a datblygwyr ystyried sut mae datblygiad yn effeithio ar iechyd corfforol, llesiant meddyliol, cydlyniant cymdeithasol, cydraddoldeb a mynediad at wasanaethau a chyfleoedd.

Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040

- A.3. Cymru'r Dyfodol sy'n darparu'r fframwaith gofodol cenedlaethol ar gyfer datblygu yng Nghymru. Mae'n cefnogi patrymau cynaliadwy o ran twf, creu lleoedd, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd a mynediad at wasanaethau, sydd i gyd yn cyfrannu at wella canlyniadau iechyd a llesiant.

Nodiadau Cyngor Technegol a Chanllawiau Cenedlaethol

- A.4. Mae nifer o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) a dogfennau canllawiau cenedlaethol yn darparu cyngor manwl ar faterion sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant, gan gynnwys ansawdd dylunio, trafnidiaeth, hamdden, mannau agored, perygl llifogydd, y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd a chreu lleoedd. Dylid ystyried y dogfennau hyn ochr yn ochr â PCC a Cymru'r Dyfodol wrth baratoi cynigion datblygu.

Deddfwriaeth Allweddol

- A.5. Mae Tabl A yn crynhoi deddfwriaeth allweddol sy'n berthnasol i iechyd a llesiant sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn. Rhestr ddangosol yw hon ac nid yn gynhwysfawr.

Tabl A: Y Brif Ddeddfwriaeth sy'n Llywio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Deddfwriaeth	Perthnasedd allweddol i'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn
Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004	Sefydlu'r system cynlluniau datblygu statudol a'r fframwaith ar gyfer gwneud cynlluniau a gwneud penderfyniadau yng Nghymru.
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	Mae'n darparu'r prif fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli datblygu a phenderfyniadau cynllunio.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus geisio datblygu cynaliadwy a chyfrannu at saith nod lesiant, gan gynnwys Cymru iachach. Ystyriaeth allweddol wrth gynllunio polisi a gwneud penderfyniadau.
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	Cyflwyno diwygiadau i system gynllunio Cymru, gan gryfhau rôl datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd.
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	Mae'n cefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at gymunedau ac amgylcheddau iachach a mwy gwydn.
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017	Mae'n sefydlu mesurau i wella a diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae Rhan 6 yn darparu'r sail deddfwriaethol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd.
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013	Mae'n ei gwneud yn ofynnol i wella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerdded a beicio ac yn hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol trwy well cysylltedd a hygyrchedd.
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	Mae'n sefydlu statws swyddogol y Gymraeg ac yn cefnogi ystyriaeth o lesiant ieithyddol a diwylliannol o fewn cymunedau.
Deddf Cydraddoldeb 2010	Mae'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'n berthnasol i ddylunio cynhwysol a mynediad teg i ddatblygiad.

- A.6. Daeth Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025, a wnaed o dan Ran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, i rym ar 6 Ebrill 2027 ac mae'n gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodedig i ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at ganllawiau a chyngor diweddaraf Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU).

Canllawiau Iechyd a Llesiant Cenedlaethol

- A.7. Mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn darparu canllawiau, offer ac adnoddau cenedlaethol ar gyfer ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyhoeddi tystiolaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â phenderfynyddion ehangach iechyd, anghydraddoldebau iechyd a chreu lleoedd iach.

Rhanbarthol

- A.8. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda rôl allweddol wrth wella canlyniadau iechyd ledled Sir Gaerfyrddin ac mae'n darparu cyfeiriad strategol ar gyfer darparu gofal iechyd ac iechyd y boblogaeth, gan adlewyrchu ei rôl o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall ei flaenoriaethau a'i sylfaen dystiolaeth helpu i lywio'r asesiad o'r effeithiau ar iechyd sy'n deillio o gynigion datblygu.
- A.9. Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd, gwytnwch cymunedol a llesiant drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Caiff [lleihau anghydraddoldebau iechyd](#) ei nodi fel blaenoriaeth allweddol, gyda ffocws ar wella mynediad at seilwaith gwyrdd a glas, hyrwyddo teithio llesol, gwella ansawdd aer a dŵr, a chefnogi atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n darparu gwell canlyniadau iechyd a llesiant i bob cymuned.
- A.10. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu paratoi gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar lefel ranbarthol. Pan fyddant wedi'u mabwysiadu, bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhan o fframwaith y cynllun datblygu a gallant gynnwys polisiau strategol sy'n berthnasol i iechyd, llesiant, seilwaith a chreu lleoedd.

Lleol

- A.11. Mae'r CDLI yn darparu'r prif fframwaith polisi cynllunio lleol ar gyfer ystyried iechyd a llesiant o fewn cynigion datblygu. Mae polisi INF2 a pholisiau cysylltiedig yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd cymunedol, ansawdd bywyd a chreu lleoedd cynaliadwy.
- A.12. Mae Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2023–2028 yn sefydlu amcanion llesiant lleol, gan gynnwys gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Ynghyd â'r Asesiad Llesiant cysylltiedig, mae'n darparu sylfaen dystiolaeth bwysig a chyd-destun lleol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, gan helpu i nodi anghenion cymunedol, anghydraddoldebau a chyfleoedd i wella canlyniadau iechyd a llesiant.

- A.13. Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin yn sefydlu blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chymunedau iachach, lleihau anghydraddoldebau, cefnogi ffyrdd o fyw egniol a gwella ansawdd bywyd.
- A.14. Dylid darllen y Canllaw Cynllunio Atodol hwn ochr yn ochr â'r CDLI yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys polisïau a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n ymwneud â chreu lleoedd, dylunio, tai, trafnidiaeth, seilwaith gwyrdd a glas, y Gymraeg, cyfleusterau cymunedol a'r amgylchedd naturiol, sydd i gyd yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd a llesiant.

Atodiad B: Adnoddau Defnyddiol

- B.1. Mae'r atodiad hwn yn nodi canllawiau ac adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr ac ymgynghorwyr wrth baratoi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Nid yw'n gynhwysfawr, ac nid yw'r awdurdod lleol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys gwefannau allanol. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn gweithio o'r fersiynau diweddaraf.

Methodoleg a Chanllawiau WHIASU

- B.2. Dylai Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd fod yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru a dylent fod yn gyson ag egwyddorion, prosesau a safonau arfer da cydnabyddedig yr Uned. Mae'r adnoddau isod yn darparu'r prif fframwaith methodolegol ar gyfer ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru.

- [Hwb Adnoddau](#) (porth i holl adnoddau Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru)
- [Canllaw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Gwirfoddol \(2025\)](#) (y prif gyfeirnod methodolegol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ym maes cynllunio dan arweiniad datblygwyr)
- [Canllaw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i Gyrrff Cyhoeddus](#) (canllawiau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd statudol) (2025)
- [Fframwaith Adolygu Sicrhau Ansawdd ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd](#) (2020)

Templedi a Rhestrau Gwirio

- B.3. Mae Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru yn darparu cyfres o dempledi a rhestrau gwirio ymarferol sydd wedi'u cynllunio i helpu'r gwaith o gymhwyso methodoleg Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn gyson ac yn systematig. Gall yr offer hyn helpu ymgeiswyr i strwythuro'r broses Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, sicrhau bod sylw cynhwysfawr yn cael ei roi i benderfyniaddion iechyd a grwpiau poblogaeth, a chynnal llwybr archwilio clir. Gall ymgeiswyr ddefnyddio'r adnoddau hyn lle bo hynny'n briodol; fodd bynnag, nid yw'n orfodol i'w defnyddio, ar yr amod bod lefel gyfatebol o drylwyredd a thryloywder yn cael ei dangos.

- [Taflen Cofnodion Sgrinio](#)
- [Rhestr Wirio Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd](#)
- [Rhestr Wirio Grwpiau Poblogaeth a Phenderfyniaddion Ehangach Iechyd a Llesiant](#)

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a Chynllunio Gofodol

- B.4. Mae'r adnoddau a restrir isod yn darparu canllawiau atodol ar gymhwyso Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wrth lunio cynlluniau a rheoli datblygu, ac ar y berthynas rhwng yr amgylchedd adeiledig a chanlyniadau iechyd. Caiff ymgeiswyr eu hannog i ddefnyddio'r dogfennau hyn i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn cyd-fynd ag arfer da wrth greu cynlluniau gofodol a'u bod yn cyfrannu'n effeithiol at greu lleoedd iach, cynaliadwy.

- [Asesu'r Effaith ar Iechyd \(HIA\) a Chynlluniau Datblygu Lleol \(CDLI\): Pecyn cymorth ar gyfer Ymarfer \(Rhannau A a B, 2021\)](#)
- [Canllaw Ymateb Cais Cynllunio ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol \(2022\)](#)
- [Mwyafu cyfleoedd iechyd a lles mewn cynllunio gofodol wrth ailsefydlu yn sgil y pandemig COVID-19 \(2022\)](#)
- [Office for Health Improvement and Disparities: HIA in Spatial Planning \(2020\)](#)
- [Public Health England: Spatial Planning for Health: an evidence resource \(2017\)](#)
- [London Healthy Urban Development Unit: Rapid HIA Tool](#)
- [Town and Country Planning Association: Healthy Place-making Resources](#)
- [Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cynllunio Lleoedd Iach: Canllaw i awdurdodau lleol yng Nghymru \(2025\)](#)
- [Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach](#)
- [Iechyd Cyhoeddus Cymru: Creu lleoedd a gofod iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol \(2018\)](#)
- [Comisiwn Dylunio Cymru: Canllawiau Creu Lleoedd \(2020\)](#)

Adnoddau ar bynciau penodol ac er mwyn cymharu

- B.5. Yn ogystal â methodoleg gyffredinol, mae yna ystod eang o ganllawiau ar bynciau penodol ac astudiaethau achos cymharol a allai gefnogi'r gwaith o baratoi Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. Gall yr adnoddau hyn helpu ymgeiswyr i ddeall mathau penodol o ddatblygiadau, asesu penderfyniadau iechyd penodol, a meincodi eu dull gweithredu yn erbyn arfer sefydledig. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw adnoddau o'r fath yn cael eu cymhwyso'n gymesur a'u bod yn berthnasol i natur a chyd-destun y cynnig.

- [Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru: Arweiniad ar asesu effeithiau cloddio glo brig ar iechyd a llesiant \(2011\)](#)
- [All Island Institute of Public Health: HIA Resource Hub](#)

- [All Island Institute of Public Health — Mellow Village: A Health Impact Assessment Case Study \(2024\)](#), a worked HIA of a hypothetical mixed-use development
- [NICE Guidelines: NG6 \(Excess winter deaths and illness and the health risks associated with cold homes\)](#)
- [NICE Guidelines: NG70 \(Air pollution: outdoor air quality and health\)](#)
- [NICE Guidelines: NG90 \(Physical activity and the environment\)](#)
- [International Association for Impact Assessment: Best Practice HIA](#)
- [Institute of Environmental Management and Assessment: Guide to Determining Significance for Human Health in Environmental Impact Assessment \(2022\)](#)

Ffynonellau Data Lleol

- B.6. Dylai asesiadau cadarn o'r effaith ar iechyd gael eu llywio gan ddealltwriaeth o'r boblogaeth leol a'i phroffil iechyd ynghyd â'r amgylchedd. Mae'r ffynonellau data a restrir yn Nhabl B yn darparu mynediad at setiau data sydd ar gael yn genedlaethol ac yn lleol a all gefnogi'r gwaith o ddadansoddi gwaelodlin a nodi effeithiau posibl ar iechyd. Disgwylir i ymgeiswyr ddefnyddio'r data diweddaraf a mwyaf perthnasol i'r ardal leol sydd ar gael, ac i ddehongli'r data hwn yn briodol yng nghyd-destun y datblygiad arfaethedig.

Tabl B: Ffynonellau data allweddol i gefnogi'r gwaith o gasglu tystiolaeth waelodlin ac asesu'r effaith ar iechyd.

Ffynhonnell data	Penderfynydd iechyd / Pwnc	Defnydd posibl o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALLC)	Amodau economaidd-gymdeithasol, amddifadedd ac anghydraddoldeb	Asesu amddifadedd, incwm, cyflogaeth, tai, mynediad at wasanaethau a pha mor agored i niwed yw'r boblogaeth
StatsCymru	Ystadegau poblogaeth, tai, yr economi a chymunedau	Gwybodaeth waelodlin am broffil demograffig, economaidd, tai a chymunedol
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru	Statws iechyd ac iechyd y boblogaeth	Asesu canlyniadau iechyd, anghydraddoldebau iechyd, achosion o glefydau a phenderfynyddion ehangach iechyd
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Y boblogaeth a nodweddion demograffig	Data'r cyfrifiad gan gynnwys proffil oedran, ethnigrwydd, cyfansoddiad aelwydydd, anabledd a gweithgarwch economaidd
Hwb Data Cyfoeth Naturiol Cymru	Ansawdd yr amgylchedd a risgiau amgylcheddol	Asesu cyfyngiadau amgylcheddol, achosion o lygredd, amgylchedd dŵr,

Ffynhonnell data	Penderfynydd iechyd / Pwnc	Defnydd posibl o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
		bioamrywiaeth a ffactorau amgylcheddol eraill
Ansawdd Aer yng Nghymru – Mapiau a Data	Ansawdd yr aer	Nodi problemau ansawdd aer presennol, a dod i gysylltiad posibl â llygryddion.
Gwyliwr Sŵn ac Ansawdd Aer Cymru	Amgylchedd sŵn ac ansawdd aer	Nodi mapiau sŵn strategol, meysydd blaenoriaeth cynlluniau gweithredu sŵn, ardaloedd tawel, a chyfyngiadau ansawdd aer a allai effeithio ar iechyd a llesiant

Atodiad C: Geirfa

- C.1. Mae'r tabl isod yn esbonio'r termau allweddol fel y'u defnyddir yn y Canllaw Cynllunio Atodol hwn. Lle mae gan derm ystyr statudol manwl, y ddeddfwriaeth sydd drechaf.


Tabl C: Geirfa o ddiffiniadau allweddol a ddefnyddir yn y Canllaw Cynllunio Atodol hwn.

Term	Ystyr
Arfarnu tystiolaeth	Trydydd cam y broses Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: nodi effeithiau tebygol cynnig ar iechyd, sut maent yn cael eu dosbarthu, a mesurau i wella buddion a lliniaru niwed.
Effeithiau cronnus	Yr effeithiau ar iechyd a llesiant sy'n codi pan fydd cynnig yn rhyngweithio â datblygiad diweddar neu arfaethedig arall yn yr ardal.
Penderfynyddion iechyd	Yr ystod eang o ffactorau — cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol — sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant, llawer ohonynt yn rhai y gall y system gynllunio effeithio arnynt. Cyfeirir at ganllawiau Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru .
Dull yn ôl disgrisiwn	Dull cymesur, fesul achos lle gall yr awdurdod lleol ofyn am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, neu wybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, ar gyfer datblygiad sydd islaw'r trothwyon INF2 lle ceir rheswm clir a seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud ag iechyd. Gall hyn ymwneud â natur, maint, lleoliad neu effeithiau tebygol y cynnig (e.e. ansawdd aer, ymddygiadau iechyd, neu bwysau iechyd cymunedol). Fel rheol caiff y dull ei nodi ar y cam cyn ymgeisio ond gellir ei gymhwyso hefyd wrth wneud y penderfyniad lle mae hynny'n rhesymol angenrheidiol. (Gweler paragraffau 6.10–15).
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)	Y broses statudol o dan <i>Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref 2017</i> ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol sylweddol datblygiadau penodol; mae iechyd dynol yn dderbynnwyd penodol.
Gwahaniad Cymunedol	Mae'n cyfeirio at y rhwystrau ffisegol a/neu seicolegol a gaiff eu creu gan seilwaith trafnidiaeth neu lefelau uchel o draffig sy'n cyfyngu ar allu pobl i symud o fewn eu cymuned, cael mynediad at wasanaethau, a chynnal cysylltiadau cymdeithasol. Gall effeithio ar ganfyddiadau o ddiogelwch, peri bod pobl yn cerdded a beicio llai, a chyfrannu at ynysu cymdeithasol ac iechyd a llesiant gwael.
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cynhwysfawr	Asesiad o'r Effaith ar Iechyd manwl ar gyfer cynigion mwy neu fwy cymhleth, sydd fel rheol yn cynnwys ymgysylltu sylfaenol â'r gymuned a dadansoddiad manwl.
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Proses strwythuredig ar gyfer ystyried sut y gall datblygiad arfaethedig effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth a sut y caiff yr effeithiau hynny eu dosbarthu.
Ymarfer sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Cam cyntaf y broses Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: asesiad byr, strwythuredig sy'n nodi a yw datblygiad yn debygol o gael effeithiau ar iechyd a llesiant ac, os felly, i ba raddau. Fel rheol caiff ei gwblhau gan

Term	Ystyr
	ddefnyddio taflen gofnod sgrinio Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (gweler Atodiad B). Lle na nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol, gall y cofnod sgrinio wedi'i gwblhau fod yn wybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sy'n cyd-fynd â'r cais.
Bwrdd Iechyd Lleol	Sef yn Sir Gaerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; gellir ymgynghori â'r Bwrdd ynghylch ceisiadau cynllunio ynghyd ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
Datblygiad mawr	Datblygu sy'n dod o fewn y diffiniad o "ddatblygiad mawr" mewn deddfwriaeth gynllunio; mae'r trothwyon INF2 yn nodi beth yw datblygiad mawr y mae angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar ei gyfer.
Gwybodaeth gymesur o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Gwybodaeth am iechyd a llesiant a gyflwynir ochr yn ochr â chais cynllunio sy'n briodol i raddfa ac effaith debygol y datblygiad ond nad yw'n Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym neu Gynhwysfawr. Yn fwyaf cyffredin mae ar ffurf ymarfer sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd; gall ymestyn i asesiad wedi'i gwmpasu o'r prif faterion iechyd lle mae'r awdurdod lleol o'r farn bod hyn yn gymesur.
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cyflym	Asesiad o'r Effaith ar Iechyd strwythuredig sy'n defnyddio fframwaith penderfynyddion cydnabyddedig, sy'n addas ar gyfer datblygiadau mawr sy'n bodloni'r trothwyon INF2 lle nodir effeithiau tebygol ar iechyd ond nad ydynt yn anarferol o arwyddocaol, cymhleth neu heriol.
Cwmpasu	Ail gam y broses Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: pennu'r ffocws, y dulliau, y poblogaethau, y cwmpas daearyddol a'r dull ymgysylltu ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
Sgrinio	Gweler <i>Ymarfer sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd</i> .
Dull dilyniannol	Proses Asesiad o'r Effaith ar Iechyd mewn pedwar cam Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru — sgrinio, cwmpasu, arfarnu tystiolaeth, ac adrodd ac argymhellion — sy'n ofynnol gan Bolisi INF2.
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU)	Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru; ffynhonnell genedlaethol methodoleg a chanllawiau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yng Nghymru.
Penderfynyddion iechyd ehangach	Gweler ' <i>pendenfynyddion iechyd</i> '.

Atodiad D: Siart Llif Penderfyniadau

When is a Health Impact Assessment Required?



Change of Use

Most changes of use fall below the INF2 thresholds. Where the proposed use raises health concerns—for example hot food takeaways, alcohol, tobacco, vaping, gambling—the discretionary route may apply. Applicants are encouraged to screen and discuss at pre-application (see paragraph 6.5)

Discretionary route triggers (Paragraph 9.10)

- Proposals in or near an AQMA
- Hot-food takeaways / HFSS food uses, especially near schools or in high-obesity areas
- Sensitive uses (e.g. schools, care homes, supported housing) in locations with health or environmental risks
- Development likely to create or add to community health pressures (individually or cumulatively)
- Uses linked to behavioural health or safety risks (e.g. vaping/tobacco retail, gambling, betting, drinking), especially near schools or high-risk areas
- Any proposals raising other significant health concerns (see para. 6.14)

Pre-application discussion is encouraged for all proposals likely to require an HIA

Voluntary submission of HIA information is welcomed even where the discretionary route is not triggered.